BUSNES,
CYMUNEDAU, POBL
**creu llwyddiant**
**gyda'n gilydd**



BUSINESSES,
COMMUNITIES, PEOPLE
**creating success**
**together**





# 2003 ADRODDIAD A CHYFRIFON BLYNYDDOL
# ANNUAL REPORT AND ACCOUNTS

Noddir gan
Lywodraeth
Cynulliad Cymru
Sponsored by
Welsh Assembly
Government

WDA

AWDURDOD DATBLYGU CYMRU
WELSH DEVELOPMENT AGENCY



## y weledigaeth

***Cymru lewyrchus, cartref i fusnesau, cymunedau a phobl ffyniannus.***
*Mae Awdurdod Datblygu Cymru yn cefnogi uchelgeisiau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer ein gwlad – trwy helpu busnesau i gychwyn a thyfu, adfywio cymunedau a chreu mwy o gyfleoedd ar gyfer pobl Cymru.*

## the vision

***A prosperous Wales, home to thriving businesses, communities and people.***
*The Welsh Development Agency supports the Welsh Assembly Government's ambitions for our country – by helping businesses to start and grow, regenerating communities and creating greater opportunities for the people of Wales.*

# cynnwys

prif ganlyniadau 2
datganiad y cadeirydd 6
canlyniadau trwy ein cwsmeiriaid: 10
gweithredu i gefnogi busnesau 10
gweithredu i gefnogi cymunedau 26
gweithredu i gefnogi pobl 36
datganiad y prif weithredwr 42
golwg dros y rhanbarthau 46
aelodau'r bwrdd 54
crynodeb pum mlynedd 56
datganiad ariannol cryno 58

# contents

3 main results
7 chairman's statement
11 results through our customers:
11 action to support businesses
27 action to support communities
37 action to support people
43 chief executive's statement
47 regional overviews
55 board members
57 five year summary
59 summary financial statement



# prif ganlyniadau - canlyniadau strategol


*Targed Cymru i Gyd*
All-Wales Target


*Targed Gorllewin a'r Cymoedd*
*West Wales & Valleys Target*


*Alldro Cymru i Gyd*
All-Wales Output


*Alldro Gorllewin a'r Cymoedd*
West Wales & Valleys Output

*swyddi a gefnogwyd*
jobs supported






Yn ystod y flwyddyn hyd at fis Ebrill 2003, cynorthwyodd gweithgareddau'r Awdurdod i greu neu ddiogelu 32,858 o swyddi, sydd yn uwch na tharged Llywodraeth Cynulliad Cymru o 31,000 o swyddi.

Roedd mwyafrif y swyddi hyn (22,397) mewn cwmnïau Cymreig a gafodd gefnogaeth gan amryw o raglenni'r Awdurdod, yn amrywio o gefnogaeth fusnes i ddarpariaeth eiddo masnachol a diwydiannol.

Gwnaeth buddsoddiad o rannau eraill o'r Deyrnas Unedig a thramor a gynorthwyd gan yr Awdurdod greu neu ddiogelu 10,461 o swyddi o'i gymharu â tharged o 8,250. O blith y swyddi hyn, cafodd 3,179 eu creu gan fuddsoddiad newydd o dramor.

Roedd cyfanswm o 22,244 o swyddi (67.7%) a gefnogwyd yng ngorllewin Cymru a'r Cymoedd, o'u cymharu â tharged y Cynulliad o 21,700, gan ddangos y gefnogaeth barhaus i ardaloedd llai ffyniannus yng Nghymru ac eithafu cyflwyniad nawdd Amcan Un.


Yn ystod y flwyddyn, 'hwylusodd' gweithgareddau'r Awdurdod £932.5 miliwn o fuddsoddiad sector preifat (o gymharu â tharged y Cynulliad o £620 miliwn)


Roedd nifer y dechreuadau busnes newydd yn ystod y flwyddyn, 5,647, yn fwy na'r targed o 4,000, ac mae'n adlewyrchu llwyddiant rhaglenni Amcan Un sy'n datblygu.


# main results - strategic outcomes


*buddsoddiad o'r sector preifat*

## private sector investment






In the year to April 2003, the Agency's activities helped to create or safeguard 32,858 jobs, exceeding the Welsh Assembly Government's target of 31,000 jobs.

The majority of these jobs (22,397) were in Welsh companies which received support from an array of Agency programmes, ranging from business support to the provision of commercial and industrial floorspace.

Investors from other parts of the United Kingdom and from overseas were assisted by the Agency to create or safeguard 10,461 jobs compared with a target of 8,250. Of these jobs, 3,179 were created by new investment from overseas.

A total of 22,244 jobs (67.7%) supported were in western parts of Wales and the Valleys, compared with an Assembly target of 21,700, demonstrating the continuing support for less prosperous areas of Wales and maximising the introduction of Objective 1 funding.

Over the course of the year, Agency activities 'levered in' £932.5 million of private sector investment (compared with an Assembly target of £620 million)


The number of new business starts achieved during the year, 5,647, exceeded the target of 4,000 and reflects the success of maturing Objective 1 programmes.





# prif ganlyniadau - allbynnau gweithredol


*cefnogi busnes*


supporting business






Parhaodd yr Awdurdod i osod targedau iddo'i hun ar gyfer cyflwyno gwasanaethau. Mae'r canlyniadau hyn yn ein helpu i fonitro effaith ein gweithgareddau wrth gefnogi'r Canlyniadau Strategol.

Mae'r uchafbwyntiau allweddol yn cynnwys:

- Nifer y busnesau a gynorthwywyd ar draws holl raglenni'r Awdurdod oedd 30,101 o'i gymharu â rhagolwg o 25,000.
- Cafodd dros £116 miliwn o fusnes newydd ei sicrhau ar gyfer cwmnïau Cymreig, sy'n fwy na'r rhagolwg o £67 miliwn.
- Cafodd nawdd o £22 miliwn ei sicrhau gan gwmnïau Cymreig ar gyfer ymchwil a datblygiad, sy'n fwy na'r rhagolwg o £8.5 miliwn. Cynhaliodd dros 11,000 o gwmnïau adolygiadau technoleg a TGCh, a chyflwynwyd mwy na 2,500 o gynhyrchion a phrosesau newydd.


# main results - operational outputs


*cefnogi cymunedau trefol & gwledig*


## supporting urban & rural communities


*annog arloesedd & e-busnes*

## encouraging innovation & e-business






The Agency continued to set itself challenging operational targets for service delivery. These outputs help us monitor the impact of our activities in support of the Strategic Outcomes.

Key highlights include:

- Number of businesses assisted across all Agency programmes was 30,101 compared to a forecast of 25,000.
- Over £116 million of new business was secured for Welsh companies, exceeding the forecast of £67 million.
- Funding of £22 million was obtained by Welsh firms for research and development, exceeding the forecast of £8.5 million. Over 11,000 firms undertook technology and ICT reviews and more than 2,500 new products and processes were introduced.





# datganiad y cadeirydd

Yn yr adroddiad hwn ar gyfnod prysur i Awdurdod Datblygu Cymru, mae'n bleser gennyf gofnodi blwyddyn hynod lwyddiannus arall.

Yn ystod 2002-2003, mae economi Cymru wedi wynebu heriau marchnad fyd eang sy'n parhau â'i adferiad yn sgil anhrefn ym marchnadoedd cyllid y byd, yn ogystal â'r anawsterau penodol a achoswyd gan golli swyddi yn y sector gweithgynhyrchu, gan gynnwys toriadau pellach gan Corus ac adferiad yn dilyn cychwyn clwy'r traed a'r genau mewn ardaloedd gwledig.

Er gwaetha' hyn, mae'r WDA wedi llwyddo i fodloni'r holl dargedau allweddol a osodwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Caiff yr ymdrech gyffredinol a wnaed i'r nifer o weithrediadau a gynhaliwyd gan yr Awdurdod ei hadlewyrchu yng nghyflawniadau ein cwsmeriaid a'n budd-ddeiliaid, a'i dangos yn yr astudiaethau achos canlynol.

Mae cyfanswm y buddsoddiad o'r tu allan i Gymru wedi gwneud yn well na'r targed o fwy na 20 y cant eleni. Er gwaetha' gostyngiad gwirioneddol o 12 y cant yn 2001/02 a rhagolwg o ddirywiad parhaus eleni, mae cyfanswm y buddsoddiad o bob marchnad yn well na'r targed. Marchnad Gogledd America sy'n parhau i fod yn brif gyfrannwr prosiectau i Gymru, ac mae buddsoddiad o'r tu allan o Ewrop wedi dangos cynnydd o tua 25 y cant ar ffigyrau'r llynedd.

Cafodd menter yr Awdurdod, Ffynhonnell Cymru, flwyddyn hynod lwyddiannus gyda thros £100 miliwn o fusnes newydd wedi'i ennill gan gwmnïau yng Nghymru o ganlyniad i welliannau yn eu perfformiad. Darparwyd cefnogaeth eang hefyd i gyflenwyr y sector ceir trwy gyflwyno'r rhaglen 'Accelerate Wales'.

Wrth hyrwyddo Cymru gystadleuol, mae'r Awdurdod wedi nodi nifer o flaenoriaethau allweddol a amlinellir yn ein cynlluniau Corfforaethol a gweithredol; a gwelir rhai o'r canlyniadau ymarferol yn yr astudiaethau achos o bob cwr o Gymru sy'n ymddangos yn yr adroddiad hwn. Mae'r Awdurdod wedi sicrhau bod themâu trawsdorri'r Cynulliad, sef cynaladwyedd, cyfle cyfartal a chynhwysiad cymdeithasol yn rhan annatod o'r broses gwneud penderfyniadau, ac mae cyfeirio at y materion pwysig hyn hefyd yn amlwg yn y wybodaeth astudiaethau achos.

Un o'r prif amcanion yw hyrwyddo arloesedd a gwerth ychwanegol, ac yn ystod y flwyddyn, cymerodd y WDA gyfrifoldeb am grantiau SMART, SPUR a RIN sy'n hyrwyddo arloesedd, ymchwil a datblygiad, a datblygu cynnyrch newydd. Cychwynnodd yr Awdurdod hefyd Rwydwaith Arloeswyr Cymru sydd eisoes wedi cefnogi 600 o arloeswyr a dyfeiswyr o Gymru, tra mae lansio cynllun gweithredu Cymru o Blaid Arloesi Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhagweld rôl sy'n gryfach fyth i'r WDA yn ystod y tair blynedd nesaf.

Mae'r Awdurdod hefyd wedi gwella ei gefnogaeth yn sylweddol ar gyfer creu rhagor o fusnesau newydd, ac wedi parhau â'i brif rôl wrth weithredu'r Cynllun Gweithredu Entrepreneuriaeth Cymru. Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi gweld cynnydd yn nifer y mentrau sydd wedi'u cynllunio i wella'r hinsawdd i fenter a chynorthwyo'r system addysg i wyro'n fwy tuag at fentro mewn busnes. Tra bo'r her yn sylweddol, mae'n galonogol nodi datblygiadau cadarnhaol ym maes ffurfio cwmnïau newydd a chychwyniadau graddedigion.

Rydym wedi cynyddu buddsoddiad Cymru yn yr oes ddigidol. Mae'r rhaglen smE-Business 2, er enghraifft, yn cynorthwyo cwmnïau i ddatblygu datrysiadau TGCh yn effeithiol a gwella cystadleugarwch busnes. Mae'r Awdurdod hefyd yn cyflwyno nifer o linynnau rhaglen strategol Llywodraeth Cynulliad Cymru, Band Eang Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys Y Cynllun Cymorthdal Lloeren Fand Eang i Fusnesau Bach a Chanolig, sy'n lleihau cost cyfathrebu lloeren, a'r fenter 'Ceisiwch Cyn Prynu' sy'n cynnig arddangos gwasanaethau band eang a chyngor diduedd am ddim. Yn ystod y flwyddyn sydd i ddod, bydd yr Awdurdod yn cyflymu argaeledd gwasanaethau band eang fforddiadwy ar gyfer y nifer cynyddol o barciau busnes ardderchog sydd gennym yng Nghymru, a gweithredu cynlluniau i ddatblygu cysylltedd rhyngwladol ein gwlad.

Mae'r flwyddyn hon wedi gweld gweithgaredd cynyddol mewn cefnogi economi amrywiol y Gymru wledig. Mae rhaglenni prif ffrwd y WDA yn cynnig buddiannau eang i'r Gymru Wledig, mewn meysydd fel datblygu adeiladau ar gyfer cwmnïau, camau cefnogi busnes, buddsoddiad o'r tu allan ac adfywio cymunedau. Rydym hefyd wedi chwarae rôl allweddol wrth hyrwyddo'r sector bwyd-amaeth, gan weithredu'r Cynllun Adfer Gwledig a chyflwyno Cyswllt Ffermio, yn ogystal â hwyluso cyflwyno'r rhaglen LEADER +.

Bydd gan yr Awdurdod hefyd rôl allweddol mewn rhaglenni newydd a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, gan gynnwys Gweithredu Cymunedol Gwledig a Chefnogaeth Adwerthu Gwledig. Yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf, buddsoddwyd dros £40 miliwn yn y sector bwyd-amaeth, £13 miliwn trwy grantiau prosesu a marchnata a gyflwynwyd gan y WDA trwy ddefnyddio cyfuniad o nawdd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac Ewrop, a'r



# chairman's statement

In this report on an eventful period for the Welsh Development Agency, I am pleased to record another most successful year.

During 2002-2003, the Welsh economy has faced the challenges of a global market still recovering from turbulence in world financial markets, as well as the particular difficulties caused by job losses in the manufacturing sector, including further cutbacks by Corus and recovery from the outbreak of foot and mouth disease in rural areas.

Despite this the WDA has succeeded in meeting all the key targets set by the Welsh Assembly Government. The strong all-round effort put into the many actions undertaken by the Agency is reflected in the achievements of our customers and stakeholders and demonstrated in the following case studies.

Total inward investment into Wales has exceeded target by more than 20 per cent this year. Despite a 12 per cent actual decrease on 2001/02 and forecast of a continued downturn this year, total investment from all markets is ahead of target. The North American market continues to be the main donor of projects into Wales and inward investment from Europe has shown an increase of about 25 per cent on last year's figures.

The Agency's Source Wales initiative had a particularly successful year with over £100 million of new business won by Welsh based companies as a result of improvements to their performance. Extensive support was also provided to automotive sector suppliers through delivery of the 'Accelerate Wales' programme.

In promoting a competitive Wales, the Agency has identified a number of key priorities set out in our Corporate and operational plans; and some of the practical outcomes will be found in the various case studies from all parts of Wales that appear in this report. The Agency has made the Assembly's cross-cutting themes of sustainability, equal opportunities and social inclusion an integral part of its decision-making, and reference to these important issues is also evident in the case study information.

One major objective is the promotion of innovation and added value, and during the year the WDA took up responsibility for the SMART, SPUR and RIN grants which promote innovation, research and development, and new product development. The Agency also set up the Wales Innovators Network which has already supported 600 Welsh innovators and inventors, while the launch of the Welsh Assembly Government's Wales for Innovation action plan heralds a still stronger role for the WDA over the next three years.

The Agency has also greatly increased its support for generating more new businesses and continued its lead role in implementation of the Entrepreneurship Action Plan for Wales. The last year has seen the roll-out of a number of initiatives designed to improve the climate for enterprise and assist the education system to become more oriented to business venturing. While the challenge is considerable, it is encouraging to note positive developments in the field of new firm formation and graduate start-ups.

We have stepped up Welsh investment in the digital age. The smE-Business 2 programme, for example, assists firms to exploit ICT solutions effectively and improve business competitiveness. The Agency also delivers a number of strands of the Welsh Assembly Government's strategic programme, Broadband Wales. These include the SME Satellite Broadband Subsidy Scheme, which reduces the cost of satellite communications, and the 'Try Before You Buy' initiative which offers demonstrations of broadband services and free impartial advice. During the coming year, the Agency will accelerate availability of affordable broadband services for the increasing number of excellent business parks we have in Wales, and implement plans to develop our country's international connectivity.

This year has seen growing activity in supporting the diverse economy of rural Wales. Mainstream WDA programmes provide Rural Wales with widespread benefits, in such fields as developing property for companies, business support measures, inward investment and community regeneration. We have also played a significant role in promoting the agri-food sector, implementing the Rural Recovery Plan and delivering Farming Connect, as well as facilitating delivery of the LEADER+ programme.







gweddill yn cael ei ddarparu gan y cwmnïau eu hunain. Ariannwyd cyfanswm o 59 o brosiectau bwyd-amaeth trwy grantiau prosesu a marchnata yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf ledled Cymru mewn ardaloedd Amcan 1 a 2.

Agwedd bwysig arall ar ein gwaith yw cefnogaeth i gymunedau, mewn ardaloedd diwydiannol a gwledig a sicrhau bod nawdd adfywio yn cael ei ddefnyddio'n gwbl effeithiol. Mae gwaith yn y maes hwn wedi cynnwys prosiectau amrywiol megis gweithredu'r Pecyn Adfywio Dur mewn ardaloedd a oedd wedi'u taro gan doriadau yn y sector gwaith dur, a datblygiad cynlluniau gweithredu Ceredigion/De Ceredigion a Gogledd Sir Benfro.

Rhoddwyd cefnogaeth hefyd mewn nifer o feysydd dan y Pecyn Adfywiad Cymunedol: mae ymagwedd y 'pecyn' yn darparu nifer o arfau cefnogaeth cyllid a chyfalaf, sy'n galluogi mabwysiadu ymagwedd gyfun-gydwedd ac yn gweithio gydag ystod eang o bartneriaid. Bydd rhaglen £22 miliwn yr Awdurdod yn cynorthwyo cymunedau i ddelio â lefelau cyfredol tlodi ac amddifadedd trwy roi'r medrau, yr offerynnau a'r awydd i unigolion i ddefnyddio technolegau gwybodaeth a chyfathrebu. Bydd y rhaglen E-Gymunedau a gychwynnodd ym Mlaenau Gwent fel rhan o'r ymateb i doriadau Corus, yn cael ei lansio yn ardal Amcan 1 Cymru yn ystod 2003.

Mae adennill tir yn parhau i fod yn elfen hanfodol mewn nifer o weithgareddau adfywio, gydag enw da'r Awdurdod yn rhyngwladol yn y maes hwn yn cael ei ddangos gan y cyngor a ddarperir ar gyfer y Weriniaeth Tsiec cyn mynediad tebygol y wlad honno fel aelod llawn o'r Undeb Ewropeaidd.

Mae Cyllid Cymru wedi parhau â'i gefnogaeth ar gyfer buddsoddi ym musnesau Cymru, gan sicrhau trosoledd cryf 4-1 gan y sector preifat ar gyfer pob punt a fuddsoddir, a hyrwyddo cydweithio agos rhwng y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r sector gwirfoddol i fod o fantais i'r economi. Roedd y gynhadledd Ariannu Twf a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr 2002 yn nodi canolbwynt newydd ac arwyddocaol ar annog twf cyllid menter cyfalaf.

Mae'r Awdurdod wedi parhau i chwarae rhan weithredol mewn Rhaglenni Nawdd Strwythurol a Mentrau Cymunedol Ewropeaidd, gyda nifer o'r blaenoriaethau bellach yn cael eu symud ymlaen gyda chymorth nawdd Ewropeaidd. Mae hyn wedi bod o fudd i nifer o brosiectau strategol, gan gynnwys Technium II a'r prosiect clwstwr opto-electronig, a fydd yn darparu amgylchedd ar gyfer cynhyrchu parhaus busnesau technolegol newydd a swyddi o ansawdd.

Mae'r Awdurdod hefyd wedi cefnogi nifer o bartneriaid yn eu ceisiadau i sicrhau cefnogaeth yr UE – er enghraifft, Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru yn eu cais i noddi Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Abertawe. Mae'r Awdurdod wedi helpu partneriaid yn uniongyrchol i sicrhau dros £8 miliwn o nawdd Ewropeaidd eleni.

Mae ymagwedd y bartneriaeth wedi bod yn allweddol trwy'r Partneriaethau Nawdd Strwythurol Ewropeaidd, ble mae'r Awdurdod yn parhau i weithredu fel y prif gorff ar gyfer nifer o bartneriaethau yn ogystal â bod yn aelod gweithgar o bartneriaethau eraill. Mae'r WDA hefyd wedi parhau i ddatblygu ei rôl ym Mentrau'r Gymuned, ac wedi cymryd yr awenau o ran hyrwyddo'r rhaglen LEADER + yng Nghymru, gyda thîm LEADER + penodedig yn adrannau rhanbarthol yr Awdurdod.

Mae'r WDA hefyd yn gweithio gyda'i bartneriaid i hyrwyddo delwedd Cymru yn fyd eang. Un llwyddiant marchnata i Gymru a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn oedd y cais llwyddiannus i gadw ac ailenwi cyfnod terfynol Pencampwriaeth mawreddog Rali'r Byd. Bydd cam olaf y Bencampwriaeth yn aros yng Nghymru am y pedair blynedd nesaf, ac mae wedi'i ailfrandio'n llwyr fel Rali Cymru GB. Rydym yn parhau â'n cyfranogiad i gynyddu'r cyfleoedd gwych a gyflwynir gan Cwpan Ryder 2010 i farchnata Cymru a denu buddsoddiad newydd.

Hoffwn gofnodi fy niolch i staff y WDA sydd wedi parhau i ddangos ymroddiad a brwdfrydedd at y dasg dan sylw. Diolch yn fawr iawn hefyd i'n holl bartneriaid yn y sector cyhoeddus, preifat a gwirfoddol y mae eu cyfraniad wedi bod yn allweddol ar gyfer y llwyddiant yr ydym wedi'i greu gyda'n gilydd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r Awdurdod, sy'n cael ei galonogi gan y cyflawniadau hynny, yn edrych ymlaen at barhau â'r partneriaethau hyn i fodloni'r heriau sy'n ein wynebu.



**Roger Jones OBE**
*Cadeirydd*





The Agency will also have a key role in new programmes recently announced by the Welsh Assembly Government, including Rural Community Action and Rural Retail Support. During the last financial year, over £40 million was invested in the agri-food sector, £13 million through processing and marketing grants delivered by the WDA using a combination of Welsh Assembly Government and European funding, and the remainder provided by companies themselves. A total of 59 agri-food projects were funded through processing and marketing grants in the last financial year across Wales in Objective 1 and 2 areas.

Another important aspect of our work is support for communities, in both industrial and rural areas and ensuring regeneration funds are used to maximum effect. Work in this field has included such diverse projects as implementation of the Steel Regeneration Package an in areas hit by steel cutbacks, and development of the Cardigan/South Ceredigion and North Pembrokeshire action plans.

Support has also been given in many areas under the Community Regeneration Tool-Kit: the 'tool-kit' approach provides a number of revenue and capital support instruments, enabling adoption of a mix and match approach and working with a broad range of partners. The Agency's £22 million E-Communities programme will assist communities to tackle current levels of poverty and deprivation by providing individuals with the skills, tools and desire to use information and communication technologies. Rolled out initially in Blaenau Gwent as part of the response to the Corus cutbacks, the wider E-Communities programme will be launched within the Objective 1 area of Wales during 2003.

Land reclamation continues as a fundamental element in many regeneration activities, with the Agency's international reputation in this field demonstrated by the advice provided to the Czech Republic in advance of that country's likely entry as a full member of the European Union.

Finance Wales has continued its support for investment in Welsh business, securing a strong 4-1 leverage from the private sector for every pound invested, and promoting the close working together of the public, private and voluntary sectors to benefit the economy. The Financing Growth conference held in December 2002 marked a new and most significant focus on encouraging the growth of venture capital finance.

The Agency has continued to play an active part in European Structural Funds Programmes and Community Initiatives, with many of the priorities now being taken forward with the assistance of European funding. This has benefited a number of strategic projects, including as Technium II and the opto-electronic cluster project, which will provide an environment for continuous generation of new high tech businesses and quality jobs.

The Agency has also supported several partners in their bids to secure EU support – for example the National Museums & Galleries of Wales in their bid for funding the National Waterfront Museum, Swansea. In total, the Agency has directly helped partners secure over £8 million of European funding this year.

The partnership approach has been evident through the European Structural Funds partnerships, where the Agency continues to operate as the lead body for several partnerships as well as being an active member of others. The WDA has also continued to develop its role in the Community Initiatives and has taken on the facilitation role for the LEADER+ programme in Wales, with a dedicated LEADER+ team based within the Agency's regional divisions.

The WDA also works with its partners to promote the image of Wales world-wide. One major marketing coup for Wales achieved during the year was the successful bid to retain and rename the final stage of the prestigious World Rally Championship. The final leg of the championship is to remain in Wales for the next four years and has been completely rebranded as the Wales Rally GB. We continue our participation in maximising the tremendous opportunities presented by the 2010 Ryder Cup to market Wales and attract new investment.

I should like to place on record my thanks to the staff of the WDA who have continued to show commitment and enthusiasm for the task in hand. My sincere thanks also to all our partners in the public, private and voluntary sectors, whose contribution has been crucial for the success that we have created together in the past year. Encouraged by those achievements, the Agency looks forward to continuing these partnerships to meet the challenges that lie ahead.



**Roger Jones OBE**
*Chairman*

# canlyniadau drwy ein cwsmeriaid

*Detholiad o astudiaethau achos yn dangos sut y gwnaeth y WDA gefnogi busnesau, cymunedau a phobl ledled Cymru yn ystod 2002 – 2003*

*The Book People, Bangor*








## gweithredu i gefnogi busnesau

### *THE BOOK PEOPLE*

**Bangor (buddsoddiad o'r tu allan)**

Cafodd dros 180 o swyddi eu creu ym Mangor, Gwynedd gan un o lyfrwerthwyr uniongyrchol mwyaf y DU. Agorodd The Book People Cyf. gyfleuster modern ym Mharc Britannia, Parc Menai, sy'n cynnwys canolfan ddosbarthu, canolfan alw a chanolfan gefnogaeth TGCh.

Yn ogystal â'r swyddi parhaol amser llawn a grëwyd gan y prosiect, bydd angen 250 o gyflogeion dros dro neu dymhorol weithio amser llawn am bedwar mis o'r flwyddyn. Cefnogwyd buddsoddiad The Book People ym Mangor gan grant Cymorth Rhanbarthol Dewisol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a Grant Datblygu Eiddo gan y WDA.

Sefydlwyd The Book People ym 1988 gan werthu llyfrau'n uniongyrchol i'r gweithle. Heddiw, mae'n un o arweinwyr y farchnad mewn gwerthiannau llyfrau uniongyrchol drwy'r post, dros y rhyngrwyd ac yn y gweithle, sy'n gwerthu dros 14 miliwn o lyfrau bob blwyddyn. Roedd galw am y ganolfan newydd ym Mangor o ganlyniad i gynnydd mewn trosiant.

### *OPTIC TECHNIUM*

**Llanelwy (arloesedd)**

Mae OpTIC, sy'n sefyll am Optronics Technology and Incubator Centre Technium, wrthi'n cael ei adeiladu mewn lleoliad allweddol ar arfordir Gogledd Cymru, ym Mharc Busnes Llanelwy.

Mae Optroneg, a ddefnyddir mewn cynhyrchion mor amrywiol â'r math newydd o oleuadau traffig, gliniaduron ac afioneg, yn un o dechnolegau galluogi allweddol yr 21ain ganrif, ac mae yna glystyrau sylweddol yng Ngogledd a De Cymru.

Bydd OpTIC Technium yn gartref i 24 o unedau deoradur, canolfan dechnoleg a chanolfan gefnogi busnes gyda chyfleusterau cynadledda. Disgwylir i'r cyfleuster fod wedi'i gwblhau ac yn barod i groesawu ei ddeiliaid newydd erbyn mis Rhagfyr 2003. Bydd y Technium yn defnyddio cyfanswm o £6,380,000 o arian Amcan 1.

Mae Amcan 1 wedi chwarae rôl ganolog mewn datblygiad economaidd yng Ngogledd Orllewin Cymru. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, roedd 150 o brosiectau a ariannwyd gan Amcan 1 wedi'u cymeradwyo yn yr ardal. Roedd gwerth cyfunedig y prosiectau yn fwy na £230 miliwn, gyda chyfraniad Amcan 1 o £95 miliwn.

### *CRITICAL SOLUTIONS TECHNOLOGY*

**Trefforest (arloesedd)**

Un o'r mentrau "deillio" (spinout) a gefnogwyd yn ystod y flwyddyn gan fuddsoddiad o £25,000 gan Cyllid Cymru oedd cynnyrch a ddatblygwyd gan dîm ymchwil bach ym Mhrifysgol Morgannwg, a fydd yn helpu diwydiant i osgoi ychwanegu at y "twll yn yr awyr" trwy ddinistrio'r haen osôn.

Mae cael ffordd ddibynadwy o wirio nad yw lefel yr elifiant olew neu saim mewn dŵr gwastraff yn mynd yn fwy na chyfyngiadau cyfreithiol llym, yn hanfodol i ddiwydiannau sy'n amrywio o betro-gemegion i gosmetigau. Mae dulliau hirsefydlog, confensiynol wedi defnyddio toddyddion sy'n teneuo'r osôn, ac mae'r cyflenwad o'r rhain wedi bod yn sychu yn sgil pryderon am y difrod i atmosffer y ddaear. Mae rhai diwydiannau wedi bod yn dibynnu ar stôr o doddyddion sy'n teneuo'r osôn tra bo eraill wedi troi at doddyddion eraill a allai fod yn beryglus.

Mae Critical Solutions Technology Cyf., a sefydlwyd fis Ebrill y llynedd gan Dr. Ed Ramsey o Brifysgol Morgannwg, bellach yn marchnata system ddibynadwy a chadarn a fydd yn galluogi cwmnïau i ddiogelu yn erbyn llygredd heb ddefnyddio toddyddion sy'n teneuo'r osôn. Mae'r system yn defnyddio dull cyflym, awtomataidd, is-goch sy'n defnyddio carbon deuocsid ar ffurf hylif yn hytrach na thoddyddion cemegol niweidiol.

# results through our customers

*A selection of case studies that demonstrate how the WDA supported businesses, communities and people across Wales during 2002 - 2003*







*OpTIC, Llanelwy* / St Asaph

# action to support businesses

## *THE BOOK PEOPLE*

**Bangor (inward investment)**

Over 180 jobs were created in Bangor, Gwynedd by one of the UK's largest direct-mail booksellers. The Book People Ltd. opened a state-of-the-art facility at Britannia Park, Parc Menai, which incorporates a distribution centre, call centre and IT support base.

In addition to the permanent full-time jobs created by the project, up to 250 temporary or seasonal employees will be required to work full-time for four months of the year. The Book People's investment in Bangor was backed by a Regional Selective Assistance grant from the Welsh Assembly Government and a Property Development Grant from the WDA.

The Book People was established in 1988 selling books direct into the workplace. Today, it is one of the market leaders in direct-mail, internet and workplace book sales, selling over 14 million books every year. The new centre at Bangor was required owing to an increase in turnover.

## *OPTIC TECHNIUM*

**St Asaph (innovation)**

Under construction at a key location on the North Wales coast is OpTIC, the Optronics Technology and Incubator Centre Technium, on St Asaph Business Park.

Optronics, used in such diverse products as new style traffic lights, laptops and avionics, is one of the key enabling technologies of the 21st century, and there are significant clusters in both North and South Wales.

The OpTIC Technium will house up to 24 incubator units, a technology centre and a business support centre with conference facilities. The facility is due to be completed and ready to accommodate its first occupants by December 2003. The Technium will utilise Objective 1 funding totalling £6,380,000.

Objective 1 has played a pivotal role in economic development in North West Wales. At the financial year's end, 150 Objective 1 funded local and sub regional projects had been approved. The combined value of these projects exceeded £230m, with an Objective 1 contribution of £95m.

## *CRITICAL SOLUTIONS TECHNOLOGY*

**Treforest (innovation)**

One of the "spin out" ventures backed during the year by a £25,000 investment by Finance Wales was a product developed by a small research team at the University of Glamorgan which will help industry avoid adding to the "hole in the sky" by damaging the ozone layer.

A reliable means of checking that the level of oil or grease effluent in discharge water does not exceed strict legal limits is vital for industries ranging from petro-chemicals to cosmetics. Long established, conventional methods have used ozone depleting solvents – the supply of which has been drying up in the wake of concerns about damage to the earth's atmosphere. Some industries have been relying on stockpiled ozone depleting solvents while others have switched to potentially hazardous alternative solvents.

Critical Solutions Technology Ltd., founded last April by the University of Glamorgan's Dr. Ed Ramsey, is now marketing a reliable and rugged system which will enable companies to guard against pollution without using ozone-depleting solvents. The system employs a rapid, automated infrared method which uses carbon dioxide in a fluid state as an alternative to damaging chemical solvents.



*Polyco Cyfyngedig, Y Drenewydd*

Polyco Limited, Newtown





## *POLYCO CYFYNGEDIG*

**Y Drenewydd (ehangiad)**

O fewn dwy flynedd i symud rhan o'u gweithrediad cynhyrchu nwyddau i'r Drenewydd, sylweddolodd Polyco Cyf. y byddai angen iddynt ehangu eu hadeiladau a'u gweithlu i ymdopi â'r galw am eu byrddau ffenestri a'u proffiliau pensaernïol. Troesant at y WDA am gefnogaeth, ac maent bellach wedi ychwanegu ail linell gynhyrchu ac yn anelu at greu deg o swyddi newydd ychwanegol, gan gynyddu eu gweithlu i 30.

Fel rhan o gefnogaeth barhaus y WDA, darparodd Rhwydwaith Arena Grant Arloesedd a Gwelliant Amgylcheddol ar gyfer gosod uned bio-màs sy'n darparu gwres trwy ailgylchu gwastraff pren o'r llinell gynhyrchu. Mae hyn wedi helpu torri lawr ar wastraff, ac mae'r cwmni hefyd yn ystyried 'allforio' gwres i gwmnïau cyfagos yn y tymor hir.

Cwblhawyd yr ad-drefnu yn ddirwystr dros gyfnod o wyth wythnos gyda chymorth trwy wasanaeth Ffynhonnell Cymru y WDA a gynlluniwyd yn benodol i wella effeithiolrwydd llawr gwaith. Mae Ffynhonnell Cymru yn helpu cwmnïau Cymru i ennill mwy o fusnes drwy helpu datblygu arferion gorau mewn meysydd fel rheoli cadwyn gyflenwi, prynu a chyflenwi, cynhyrchiant, ansawdd a marchnata.

## *SZ GEARS*

**Rhisga (arloesedd)**

Bu i fuddsoddiad gan Cyllid Cymru helpu rheolwyr SZ Gears yn Rhisga i brynu'r cwmni, sy'n anelu am dwf busnes trwy arallgyfeirio.

SZ, a sefydlwyd ym 1969, yw'r prif gwmni torri geriau yn Ne Cymru sydd â gweithlu medrus a phrofiadol iawn. Yn draddodiadol, mae'r cwmni wedi darparu geriau i ddiwydiannau trwm ac i gleientiaid mewn sectorau sy'n amrywio o fwyd i gydrannau modurol.

Mae'r perchnogion newydd, Steve Davies a William Beese – sef Rheolwr Gwaith a Rheolwr Cynhyrchu'r cwmni yn y drefn honno – bellach yn bwriadu ceisio busnes newydd trwy ddarparu ystod ehangach o wasanaethau peiriannau manwl iawn i amrywiaeth ehangach o gleientiaid.

Ychwanegodd "nawdd bwlch" o £100,000 gan Gyllid Cymru at eu nawdd personol a nawdd o'r sector preifat i sicrhau y gallai'r rheolwyr fynd ymlaen i brynu'r cwmni gan y cyn-berchnogion.

## *DELTA MICROELECTRONICS CYF.*

**Ystrad Mynach (buddsoddiad o'r tu allan)**

Mae DELTA, un o brif gwmnïau technoleg micro-electroneg Ewrop wedi sefydlu eu his-gwmni yn y DU yn Ystrad Mynach. Dyma'r buddsoddiad cyntaf i'r cwmni o Ddenmarc ei wneud y tu allan i Sgandinafia, gyda chymorth Llywodraeth Cynulliad Cymru, y WDA a Chyngor Bwrdeistref Caerffili, ac fe greodd y tŷ dylunio sglodion silicon ar archeb masnachol cyntaf yng Nghymru. Mae'r is-gwmni – DELTA Microelectronics Cyf. – yn gweithredu yn un o'r diwydiannau sy'n tyfu'n gyflymaf yn y byd.

Bydd y cwmni, sydd wedi'i leoli yn y Ganolfan Fusnes a Thechnoleg yn Ystrad Mynach, yn darparu gwasanaethau technoleg micro-electroneg i ddiwydiant, gan gynnwys cynllunio microsglodion silicon ar gyfer cynnyrch penodol ac ar archeb. Trwy ei riant-gwmni, bydd yn cynnig gwasanaeth llawn gan gynnwys atebion prawf, ymchwilio i waffer silicon, dadansoddi methiant, profi cynhyrchu cydrannau a gwasanaethau eraill sy'n gysylltiedig â thechnoleg.

## *RUTH LEE FIRE & RESCUE EQUIPMENT CYF.*

**Corwen (arloesedd)**

Ruth Lee Fire & Rescue Equipment yw un o arweinwyr y farchnad yn y maes arbenigol hwn. Mae'r cwmni yng Nghorwen ar hyn o bryd yn darparu offer ar gyfer holl wasanaethau tân y DU. Mae cleientiaid eraill yn cynnwys y Weinyddiaeth Amddiffyn, yr heddlu, y gwasanaethau ambiwlans a thimau achub mynyddoedd. Mae'r cwmni hefyd yn allforio ei gynhyrchion i 14 o wledydd.

Bu cefnogaeth gan y WDA o gymorth i'r cwmni pan oedd yn adolygu ei broses weithgynhyrchu i glustnodi technegau a thechnolegau newydd i gynyddu cynhyrchiant. Roedd twf llyfr archebion y cwmni yn golygu bod angen symud i adeilad mwy yng Nghorwen, a chynorthwywyd hyn gan grant Cymorth Rhanbarthol Dewisol Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Bu i'r cwmni elwa hefyd o ystod o gefnogaeth a ddarparwyd gan y WDA a phartneriaid, gan gynnwys grant Mudiad Menter Pentrefi a Threfi Bychain i ddatblygu gwefan y cwmni, cymorth ariannol i weithredu ISO 9001-2000 a chyngor gan Ymgynghorwr Arloesedd a Thechnoleg ar gyflwyno offer newydd.

*Ruth Lee Fire & Rescue Equipment Cyf., Corwen*

Ruth Lee Fire & Rescue Equipment Ltd., Corwen





## *POLYCO LIMITED*

**Newtown (expansion)**

Within two years of moving part of their manufacturing operation to Newtown, Polyco Ltd. realised they would need to expand their premises and workforce to cope with demand for their window boards and architectural profiles. They turned to the WDA for support and have now added a second production line and are on target to create an additional ten new jobs, taking their workforce to 30.

As part of on-going WDA support, Arena Network provided an Environmental Innovation and Improvement Grant towards installation of a biomass unit which provides heating by recycling wood waste from the production line. This has helped to cut down on waste, and the company is also considering 'exporting' heating to neighbouring companies in the long-term.

The reorganisation was completed without hitch over an eight week period with help through a WDA Source Wales service specifically designed to improve shop floor effectiveness. Source Wales helps Welsh companies to win more business by helping develop best practice in areas such as supply chain management, purchasing and supply, productivity, quality and marketing.

## *SZ GEARS*

**Risca (innovation)**

An investment by Finance Wales helped fund a management buy-out at Risca-based SZ Gears which is aiming for business growth through diversification.

SZ, established in 1969, is South Wales' leading gear cutting company with a highly skilled and experienced workforce. Traditionally, the company has supplied gears to heavy industry and to clients in sectors ranging from food to automotive components.

New owners Steve Davies and William Beese – who are respectively the company's Works Manager and Production Manager – now intend to seek new business by providing a broader range of high precision machining services to a wider variety of clients.

A £100,000 "gap funding" investment by Finance Wales augmented personal and private sector funds to ensure that the buy-out from the former owners could go ahead.

## *DELTA MICROELECTRONICS LTD.*

**Ystrad Mynach (inward investment)**

DELTA, one of the Europe's leading microelectronics technology companies, has established a UK subsidiary at Ystrad Mynach. The investment, assisted by the Welsh Assembly Government, the WDA and Caerphilly County Borough Council, was the first made by the Danish company outside Scandinavia and created the first commercial custom silicon chip design house in Wales. The subsidiary company – DELTA Microelectronics Ltd. – operates in one of the fastest growth industries in the world.

Based in the Tredomen Business & Technology Centre at Ystrad Mynach it will provide microelectronic technology services to industry, including the design of custom and product specific silicon microchips. Through its parent company it will offer a total service including test solutions, silicon wafer probing, failure analysis, component production testing and other related technology services.

## *RUTH LEE FIRE & RESCUE EQUIPMENT LTD.*


**Corwen (innovation)**

Ruth Lee Fire and Rescue Equipment Ltd. is one of the market leaders in its specialised field. The Corwen-based company currently supplies all UK fire services with equipment. Other clients include the Ministry of Defence, police, ambulance services and mountain rescue teams. The company also exports its products to 14 countries.

Support from the WDA helped the company review its manufacturing process to identify new techniques and technologies to increase production. The company's growing order book necessitated a move to larger premises at Corwen, assisted by a Regional Selective Assistance grant by the Welsh Assembly Government.

The company also benefited from a range of support provided by the WDA and partners, including a Small Towns and Villages Enterprise Initiative grant to develop the company's web page, financial support to implement ISO 9001-2000 and advice from an Innovation Technology Counsellor on the introduction of new equipment.





*uchod, ar y dde* / above right
*Medipure Cyf.*
Medipure Ltd



## *DRAIG TECHNOLOGY*
**Parc Menai (ehangiad)**

Mae Draig Technology Cyf., sef cwmni datblygu TG arbenigol, yn bwriadu dyblu yn ei faint yn dilyn twf parhaus yn ystod y tair blynedd diwethaf a datblygiad system feddalwedd ddwyieithog.

Mae'r cwmni yng Nghanolfan Intec, Parc Menai, Bangor, Gwynedd, yn cyflogi chwech o staff arbenigol. Mae'n ymwneud yn bennaf â datblygu strategaethau TG a systemau wedi'u haddasu ar gyfer ei gleientiaid, gan gynnwys systemau rheoli rhwydwaith, rheolaeth TG, datrysiadau ar y we ac e-fasnach. Mae hefyd yn dylunio ac yn rheoli systemau cronfa ddata un pwrpas.

Mae bellach am recriwtio wyth gweithiwr TG medrus ar ôl cael grant Cymorth Rhanbarthol Dewisol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a chefnogaeth barhaus gan y WDA.

## *NORGINE CYF.*
**Hengoed (ehangiad)**

Lansiodd y gweithgynhyrchwr fferyllol Norgine Cyf. y cam diweddaraf mewn rhaglen ehangu sydd wedi gweld buddsoddiad o £8 miliwn yn ei ffatri yn Ne Cymru ac sydd wedi mwy na dyblu ei weithlu yng Nghymru.

Mae'r ehangiad i'r brif ffatri, a gynorthwyir gan Gymorth Rhanbarthol Dewisol a ddarperir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, wedi'i gynllunio i alluogi Norgine i aros cyfuwch â'r galw cynyddol byd-eang am ei ystod o gynhyrchion fferyllol unigryw sydd wedi'u hanelu'n bennaf at afiechydon gastro-enteroleg. Cafodd dros hanner cynnyrch cyfan y ffatri yn ôl gwerth ei allforio i gyfandir Ewrop, Asia ac Affrica y llynedd.

Yn ystod y chwe blynedd diwethaf, mae Norgine wedi dilyn rhaglen ehangu uchelgeisiol yn Hengoed, sydd wedi ehangu ei dîm gwaith o 99 i 227 ac wedi cynyddu cynnyrch y ffatri i 11.4 miliwn uned o dabledi, pils a hylifau yn 2002, gyda chynnydd arfaethedig o 30 y cant ar gyfer 2003.

Dywedodd Cyfarwyddwr Rheoli Norgine, Peter Harsant: "Roeddem yn hyderus i fuddsoddi'n helaeth yng Nghymru oherwydd rhagoriaeth y tîm gwaith yn Hengoed ac oherwydd y gefnogaeth a'r anogaeth yr ydym wedi'u cael gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac Awdurdod Datblygu Cymru."

## *MEDIPURE CYF.*
**(cychwyn)**

Bydd cwmni biotechnoleg newydd, a lansiwyd gyda chefnogaeth buddsoddiad Cyllid Cymru, yn cynhyrchu diheintyddion 'ffafriol i bobl' sy'n debygol o gael dylanwad mawr ar ysbytai ledled y wlad.

Mae Medipure Cyf., a gefnogir hefyd gan Gymorth Rhanbarthol Dewisol Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn defnyddio technolegau actifiant glân electronig i greu 'bywleiddiaid glân'. Mae cynhyrchion y cwmni'n cynnwys y diheintyddion mwyaf pwerus ond eto mwyaf diogel yn y byd. Maent yn ddewis arall mwy effeithlon i gemegau gwenwynig a ddefnyddir yn eang, gan gynnwys i sterileiddio arwynebau gwaith ac offerynnau llawfeddygol mewn tua 80 y cant o ysbytai.

Bydd Medipure bellach yn adeiladu ei ffatri ei hun ar Ystad Ddiwydiannol Colomendy yn Ninbych, lle mae'r cwmni'n bwriadu cyflogi 17 o staff gwyddonol o fewn dwy flynedd, ac yn sefydlu gweithrediad ymchwil a datblygu, profi a chynhyrchu. Mae wedi codi £650,000 o gyfalaf datblygiad o'r sectorau preifat a chyhoeddus, gan gynnwys buddsoddiad 'mesanîn' gan Gyllid Cymru ccc, sef y sefydliad a grëwyd gan Awdurdod Datblygu Cymru i ddarparu nawdd masnachol ar gyfer busnesau a chymunedau Cymru, ac sy'n cael ei gefnogi gan bron i £20 miliwn o arian Amcan Un.








*Draig Technology, Parc Menai*

*Roger Jones, Cadeirydd y WDA, yn dadorchuddio llechfaen wrth agor estyniad newydd i ffatri gweithgynhyrchu fferyllol Norgine, Hengoed, gyda (chwith i'r dde) Peter Harsant, Rheolwr-gyfarwyddwr Norgine Cyf. a Peter Stein, Cadeirydd Norgine Cyf.*

Roger Jones, Chairman, WDA, unveils a slate plaque at the opening of the new extension to the Norgine pharmaceutical manufacturing facility at Hengoed, watched by (left to right) Peter Harsant Managing Director of Norgine Ltd. and Peter Stein, Chairman, Norgine Ltd.

## *DRAIG TECHNOLOGY*
**Parc Menai (expansion)**

Draig Technology Ltd., a specialist IT development company, planned to double its size following continued growth over the past three years and development of a bilingual software system.

Based at the Intec Centre, Parc Menai, Bangor, Gwynedd, the company employs six specialist staff. It is mainly concerned with developing IT strategies and customised systems for its clients, including network management systems, IT management, web-based solutions and e-commerce. It also designs and manages dedicated database systems.

Now it is to recruit an additional eight skilled IT personnel after receiving a Regional Selective Assistance grant from the Welsh Assembly Government and on-going support from the WDA.

## *NORGINE LTD.*
**Hengoed (expansion)**

Pharmaceutical manufacturer Norgine Ltd. launched the latest phase in an expansion programme which has seen the investment of £8 million in its South Wales plant and more than doubled its Welsh workforce.

The extension to the main plant, assisted by Regional Selective Assistance provided by the Welsh Assembly Government, is designed to enable Norgine to keep pace with rising world-wide demand for its range of unique pharmaceutical products aimed mainly at gastroenterology ailments. More than half of the Welsh plant's total output by value last year was exported to continental Europe, Asia and Africa.

Over the last six years, Norgine has pursued an ambitious expansion programme at Hengoed, which has raised its working team from 99 to 227 and increased the plant's output to 11.4 million units of tablets, capsules and liquids in 2002, with a projected 30 per cent increase for 2003.

Norgine Managing Director, Peter Harsant, said: "We had the confidence to invest heavily in Wales because of the excellence of the working team at Hengoed and because of the support and encouragement we've received from the Welsh Assembly Government and the Welsh Development Agency."

## *MEDIPURE LTD.*
**(start-up)**

A new biotechnology company launched with support of an investment by Finance Wales will manufacture 'people-friendly' disinfectants which are likely to make a major impact on hospitals across the country.

Medipure Ltd., which is also backed by Regional Selective Assistance from the Welsh Assembly Government, use electronic clean activation technologies to create 'clean biocides'. The company's products include the most powerful yet safest disinfectants in the world. They provide more efficient replacement for toxic chemicals used in a wide range of applications, including sterilisation of working surfaces and surgical instruments in some 80 per cent of hospitals.

Medipure will be locating its own factory at Denbigh's Colomendy Industrial Estate, where the company plan to employ 17 scientific staff within two years, and will establish a research and development, testing and manufacturing operation. It has raised £650,000 of development capital from the private and public sectors, including a 'mezzanine' investment by Finance Wales plc, the organisation created by the Welsh Development Agency to provide commercial funding to Welsh businesses and communities and backed by nearly £20 million of Objective 1 funds.










*Stagecraft, Llandrindod /*
Llandrindod Wells



## *118 UK*
**Abertawe (ehangiad)**

Cyhoeddodd y cwmni ymholiadau llyfr ffôn, 118UK, brosiect ehangu a fydd yn creu 350 o swyddi yn Abertawe ar ôl atgyweiriad mawr i'w swyddfeydd yn Stryd Orchard.

Perchennog y cwmni yw Conduit, sef cwmni o Iwerddon, ac mae twf y cwmni yn Abertawe yn dilyn llwyddiant eu gwaith yng Nghaerdydd. Mae 118UK yn darparu gwasanaethau ymholiadau llyfr ffôn ar ran Vodafone, Orange, ac O2. Mae dadreoliad gwasanaethau ymholiadau llyfr ffôn sydd ar fin digwydd yn y DU yn golygu y bydd y cwmni'n cynnig eu gwasanaeth i holl ddefnyddwyr gwifrau tir cyn bo hir.

> *'Curodd Abertawe gystadleuaeth o Iwerddon ac ardaloedd yn y DU'*

Enillodd Abertawe y contract ehangu ar ôl curo cystadleuaeth o Iwerddon ac ardaloedd yn y DU, diolch i'r gweithlu a'r gefnogaeth gan y WDA a Llywodraeth Cynulliad Cymru.

## *STAGECRAFT*
**Llandrindod (ehangiad)**

Mae galw cyhoeddus am gynhyrchion gardd a hamdden yn dilyn ffyniant mewn crefftau'r cartref ac ail-addurno cartrefi wedi arwain at ehangu Stagecraft, sef cwmni arloesol ym Mhowys sy'n gwneud cynnyrch pren ar gyfer dodrefn siopau ac arddangosfeydd mewn canolfannau garddio.

Cafodd y cwmni a oedd yn gweithio o fferm wedi'i haddasu mewn lleoliad gwledig yn Llaithddu, ger Llandrindod, ei daro'n galed gan argyfwng Clwy'r Traed a'r Genau yn sgil cyfyngiadau mewn ardaloedd gwledig a'r canfyddiad na châi cleientiaid ymweld â'u safle gweithgynhyrchu. Mae dyblu eu man gweithgynhyrchu wedi eu galluogi i ychwanegu gwaith arddangosfeydd siop at eu portffolio mewn cydweithrediad â chwmni mewn uned fusnes gyfagos yn Rhaeadr Gwy.

Mae'r gwaith newydd bellach yn cychwyn, a gallai hyd at 10 o swyddi newydd gael eu creu ar ddau safle Stagecraft yn y dyfodol.

Cafodd Stagecraft Grant Arddangos gan y WDA a gynorthwyodd eu hadferiad a'u datblygiad: cafodd y grant hwn ei ddyfeisio gan Adran Canolbarth Cymru yr Awdurdod i helpu cwmnïau yn y Gymru wledig a gafodd eu heffeithio gan glwy'r Traed a'r Genau, gyda nawdd gan Gronfa Adfer Cefn Gwlad Llywodraeth Cynulliad Cymru. Trwy ehangu parhaus, mae'r cwmni bellach wedi cymryd mwy o le gweithgynhyrchu mewn uned fusnes ym Mharc Menter Brynberth yn Rhaeadr Gwy gyda chefnogaeth yr Awdurdod. Mae'r cwmni bellach yn gweithio ar ddatblygu marchnad allforio newydd yn yr Unol Daleithiau.

## *INTERTISSUE CYF.*
**Baglan (buddsoddiad o'r tu allan)**

Bydd ffatri newydd sy'n cynhyrchu papur, fydd yn creu dros 300 o swyddi, ac sy'n cynnwys gwariant cyfalaf sylweddol, yn dod i Barc Ynni Bae Baglan, ar ôl curo cystadleuaeth gref o Ewrop. Mae Intertissue Cyf., sy'n rhan o'r Delicarta Group, yn bwriadu sefydlu ffatri newydd i gynhyrchu papur ac adeiladu cyfleuster i droi papur yn gynnyrch papur sidan gorffenedig.

Mae'r buddsoddiad yn dilyn dwy flynedd o drafodaethau, a dyma'r ail brif fuddsoddiad yn y sector hwn i gael ei ddenu i Gymru trwy swyddfa'r WDA yn Milan. Bydd Intertissue yn cael grant Cymorth Rhanbarthol Dewisol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a chefnogaeth y WDA.

Cafodd y prosiect ei hyrwyddo gan bartneriaeth Parc Ynni Baglan sy'n cynnwys BP, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a'r WDA. Sicrhaodd BP a Chyngor Castell-nedd Port Talbot fod tir ar gael ar gyfer y cyfleuster newydd, ac mae'n debyg y bydd dros fil o swyddi dros dro yn cael eu creu yn ystod y cyfnod adeiladu dwy flynedd.

*Arwyddo cytundeb buddsoddi Intertissue gan Andrew Davies AC, Gweinidog Datblygu Economaidd*

Economic Development Minister Andrew Davies AM signs the Intertissue Ltd. investment agreement







## *118 UK*

**Swansea (expansion)**

Directory enquiries company 118UK announced an expansion project which will create 350 jobs in Swansea after a major refit of their offices in Orchard Street.

Owned by Irish company Conduit, the company's growth in Swansea follows the success of their Cardiff operation. 118UK provide directory enquiry services on behalf of Vodaphone, Orange, and O2. The imminent deregulation of 192 directory services in the UK means that the company will soon be offering their service to all landline users.

*'Swansea beat off competition from Ireland and UK regions'*

Swansea won the expansion contract after beating off competition from Ireland and UK regions, thanks to the workforce and the support from the WDA and the Welsh Assembly Government.

## *STAGECRAFT*

**Llandrindod Wells (expansion)**

Public demand for garden and leisure products following the DIY and makeover boom has led to the expansion of Stagecraft, an innovative Powys-based company that manufactures timber-based products for shop-fitting and garden centre displays.

Operating from a converted farm in a rural location at Llaithddu, near Llandrindod Wells, the company was hit hard by the Foot and Mouth outbreak because of restrictions in rural areas and the perception that clients could not visit their manufacturing site. Doubling their manufacturing space has enabled them to add shop display work to their portfolio in collaboration with a company based at a neighbouring business unit at Rhayader. The new work is now taking off and up to 10 new jobs could be created at Stagecraft's two sites in the future.

Stagecraft received a WDA Exhibition Grant which assisted their recovery and development: this grant was devised by the Agency's Mid Wales Division to help companies in rural Wales affected by Foot and Mouth disease, with funding from the Welsh Assembly Government's Rural Recovery Fund. Through continued expansion, the firm has now taken on additional manufacturing space in a business unit at the Brynberth Enterprise Park in Rhayader with Agency support. The company is now working to develop a new export market in the United States.

## *INTERTISSUE LTD.*

**Baglan (inward investment)**

A new paper making plant which will create over 300 jobs and involves substantial capital expenditure is set to come to the Baglan Bay Energy Park, after beating off strong competition from Europe. Intertissue Ltd., part of the Delicarta Group, intends to establish a new paper making plant and construct a facility to convert paper into finished tissue products.

The investment follows two years of negotiations and is the second major investment in this sector to be attracted to Wales through the WDA's Milan office. Intertissue will receive a Regional Selective Assistance grant from the Welsh Assembly Government and the support of the WDA.

The project has been facilitated by the Baglan Energy Park partnership which includes BP, Neath Port Talbot County Borough Council and the WDA. Land for the new facility has been made available by BP and Neath Port Talbot Council and over a thousand temporary jobs are likely to be created during the two year construction period.







*Selonda Acquaculture S.A., Penmon*



## *VANNPLASTIC CYF.*

**Sir y Fflint (arloesedd)**

Cafodd Vannplastic Cyf. ei lansio yn Saltney, gyda chymorth gan Raglen Cychwyn Busnes Newydd y WDA. Cafodd y cwmni, a gyflogodd bedwar o bobl, gefnogaeth i weithgynhyrchu 'Ecodek', sef cynnyrch arloesol i'w ddefnyddio wrth gynhyrchu dodrefn a deciau gardd.

Caiff Ecodek ei wneud bron yn gyfan gwbl o ddeunyddiau sydd wedi'u hailgylchu, megis cynhyrchion llawr pren a phlastig. Mae'n ddeniadol ac yn gryf, ac nid yw'n rhydu, yn torri yn ysgyrion nac yn plygu fel cynhyrchion pren tebyg, ac mae ei botensial ar y farchnad yn galonogol iawn.

## *DAIRYGOLD FOOD PRODUCTS (UK) CYF.*

**Felinfach (ehangiad)**

Yn ystod 2001, fe brynodd Dairygold Food Products ffatri bacio caws Caws Dyffryn Aeron yn Felinfach ger Llanbedr Pont Steffan, ynghyd â chyfran o 50 y cant o'r ffatri gaws wreiddiol yn ystod yr un cyfnod.

Trwy adeiladu ar y busnes presennol, mae'r cwmni wedi parhau i ehangu, a chyda chefnogaeth Grant Prosesu a Marchnata gwerth £1.2 miliwn, mae bellach wedi buddsoddi £3.1 miliwn yn ei gyfleusterau prosesu a storio. Mae'r buddsoddiad yn diogelu swyddi 120 o gyflogeion y cwmni a bydd yn creu cyfleoedd newydd yn y dyfodol.

## *SELONDA AQUACULTURE S.A.*

**Penmon (arloesedd)**

Mae dull arloesol o ffermio pysgod gan ddefnyddio technoleg ddatblygedig ailgylchu dŵr môr sy'n gynaliadwy ac yn economaidd wedi'i gyflwyno yn ffatri un o brif gwmnïau dyframaeth Ewrop yn Sir Fôn, sef Selonda Aquaculture S.A.

Mae profion a gynhaliwyd ar Fferm Torbytiaid Bluewater Flatfish y cwmni ym Mhenmon yn Sir Fôn i gywreinio'r dechnoleg, yn dangos y gellir lleihau costau mewnbwn cynhyrchu mewn cymhariaeth â meithrin corlannau môr. Gellir defnyddio gwastraff o'r fferm ar gyfer cynhyrchion eilaidd a gwrteithiau naturiol, tra bydd gwastraff ychwanegol yn ffurfio ardal tir gwlyb adeiledig, gan wella cynefinoedd bywyd gwyllt a darparu mwyniant naturiol.

Mae'r cwmni'n bwrw ymlaen â'r cynlluniau ar gyfer fferm bysgod môr all gynhyrchu draenogod y môr a lleden Môr y Canoldir, gyda'r gallu i newid rhwng y ddau rywogaeth i fanteisio ar amodau'r farchnad. Mae Awdurdod Datblygu Cymru wedi helpu'r cwmni i sicrhau cefnogaeth y sector cyhoeddus ar gyfer ei gynllun ehangu, a fydd yn dod â'i fuddsoddiad yng Nghymru i £15 miliwn, ac sy'n debygol o greu 30 o swyddi.

## *THE PICTURE WORKS CYF.*

**Llanbedr Pont Steffan (arloesedd)**

Sefydlwyd The Picture Works Cyf. ym 1996 gan Robin Whealans, sef entrepreneur ifanc a welodd farchnad arbenigol ar gyfer systemau clyweledol uwch-dechnolegol mewn cyngherddau a digwyddiadau mawr. Mae'r cwmni wedi tyfu'n sylweddol ac wedi cadw ei safle yng Nghefn Gwlad Cymru er ei fod yn weithredol mewn dros ddeugain o wledydd ledled y byd.

Effeithiodd argyfwng Clwy'r Traed a'r Genau ar y cwmni yn dilyn canslo gwaith yng Ngŵyl Reading a'r Eisteddfod Genedlaethol. Er mwyn delio â hyn, a datblygu meysydd gwaith newydd, darparodd Adain Canolbarth Cymru yr Awdurdod grant ar gyfer offer newydd gan y Rhaglen Ymelwa ar Dechnoleg, gan ddefnyddio arian gan Gronfa Adfer Cefn Gwlad Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Galluogodd y Gronfa Adfer yr Awdurdod hefyd i gefnogi'r cwmni gyda Grant Arddangos i'w helpu adfer trosiant trwy gynhyrchu gwerthiannau newydd mewn arddangosfa fawr.






*chwith a chwith eithaf* / left and far left
*Dairygold Food Products (UK) Cyf., Felinfach*
Dairygold Food Products (UK) Ltd., Felinfach

*ar y dde* / right
*Vannplastic Cyf., Sir y Fflint*
Vannplastic Ltd., Flintshire



## *VANNPLASTIC LTD.*

**Flintshire (innovation)**

Vannplastic Ltd. was launched at Saltney with help from the WDA's New Business Starts Programme. The company, which employed four people, obtained support to begin manufacturing 'Ecodek', an innovative product for use in the production of garden furniture and decking.

Ecodek is made almost completely from recycled materials, such as plastic and wooden floor products. It is attractive and durable and does not corrode, splinter or bend like comparable wooden products and its market potential is highly encouraging.

## *DAIRYGOLD FOOD PRODUCTS (UK) LTD.*

**Felinfach (expansion)**

During 2001 Dairygold Food Products acquired the Aeron Valley Cheese pre-pack cheese plant at Felinfach, near Lampeter together with a 50 per cent share of the original cheese plant during the same period.

Building on the existing business, the company has continued to expand, and with the support of a £1.2 million Processing and Marketing Grant it has now undertaken a £3.1 million investment in its processing and storage facilities. The investment safeguards the jobs of the company's 120 employees and will create new opportunities in the future.

## *SELONDA AQUACULTURE S.A.*

**Penmon (innovation)**

A pioneering method of fish farming using advanced seawater recirculation technology that is both sustainable and economic has been introduced at the Anglesey plant of one of Europe's leading aquaculture companies, Selonda Aquaculture S.A.

Trials conducted at the company's Bluewater Flatfish Turbot Farm at Penmon, Anglesey to fine-tune the technology show that input costs for production can be reduced in comparison with sea-pen culture. Waste from the farm can be used for secondary products and natural fertilisers, while additional waste removal will take the form of a constructed wetland area, enhancing wildlife habitats and providing a natural amenity.

The company is pressing ahead with plans for a marine fish farm able to produce sea bass and Atlantic halibut, with the ability to switch between the two species to take advantage of market conditions. The Welsh Development Agency has assisted the company in securing public sector support for its expansion plan, which will bring its investment in Wales up to £15 million and is likely to create 30 jobs.

## *THE PICTURE WORKS LTD.*

**Lampeter (innovation)**

The Picture Works Ltd. was established in 1996 by young entrepreneur Robin Whealans who spotted a niche market for high-tech audio/visual systems at major concerts and events. The company has grown substantially and maintained its base in Rural Wales despite being operational in over forty countries worldwide.

The company was affected by the Foot and Mouth crisis following cancellation of work at the Reading Festival and National Eisteddfod. In order to deal with this and exploit new areas of work, the Agency's Mid Wales Division provided a grant for new equipment from the Technology Exploitation Programme, utilising funds from the Welsh Assembly Government's Rural Recovery Fund.

The Recovery Fund also enabled the Agency to support the company with an Exhibition Grant to help it recover turnover by generating new sales at a major exhibition.



*Symud o gwmpas ar Sgwter Prestige*

Getting around on a Prestige Scooter



## MARIX DRUG DEVELOPMENT CYF.

**Llantrisant (arloesedd)**

Cafodd Marix Drug Development Cyf. gymorth gan y WDA i adeiladu canolfan ymchwil a datblygiad clinigol yn Llantrisant, sydd wedi rhoi gallu newydd i Gymru i gynnal ymchwil a datblygiad uwch yn y sector fferyllol.

Mae Marix yn ymchwilio i syniadau ei gleientiaid ar gyfer meddyginiaethau newydd, mae'n clustnodi'r rheiny sydd â'r potensial i fod yn werthfawr yn feddygol ac yn ddichonadwy yn fasnachol – ac mae'n eu datblygu a'u profi nes y byddant yn barod i gael eu lansio ar y farchnad. Ffurfiwyd y cwmni yn 2001, gyda chymorth grant Cymorth Rhanbarthol Dewisol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Trwy weithio'n agos â Marix, mae'r WDA yn bwriadu i ganolfan R&D y cwmni roi hwb sylweddol i gynlluniau'r Awdurdod ar gyfer datblygu parc gwyddoniaeth arbenigol ar safle Gwaun Elai, ger Ysbyty Brenhinol Morgannwg a'r pencadlys Gwasanaeth Trallwyso Gwaed Cenedlaethol yng Nghymru.

*'Gallu newydd i gynnal ymchil a datblygu'*

## ABERTECHNIUM

**Aberystwyth (arloesedd)**

Mae cynlluniau yn mynd rhagddynt yn dda ar gyfer AberTechnium, sef y Technium cyntaf yng Nghanolbarth Cymru, sy'n darparu sylfaen ar gyfer datblygu busnesau sy'n seiliedig ar wybodaeth yng Nghanolbarth Cymru. Mae wedi'i leoli gerllaw swyddfeydd y WDA yn Y Lanfa, Aberystwyth, a bydd yn datblygu cymuned o fusnesau elw mawr sy'n gryf ac yn llwyddiannus yn fasnachol.

Yn ystod 2002/03, dechreuodd y gwaith ar osod yr adeilad, gan gynnwys 14 o swyddfeydd gofynion uchel, tair ystafell gyfarfod, pedwar labordy biowyddoniaeth a man 'desg boeth'. Un o nodweddion arbennig AberTechnium yw'r man desg boeth, sy'n galluogi unigolion i ddefnyddio cyfleusterau Technium ac arbenigedd y staff am gyfnodau byr, i helpu datblygu eu syniadau busnes. Gall defnyddwyr y cyfleuster desg boeth symud ymlaen wedyn i fod yn denantiaid llawn yn Technium pan fydd eu cynllun busnes yn barod.

## ETL SOLUTIONS CYF.

**Blaenau Ffestiniog (buddsoddiad o'r tu allan)**

Mae ETL Solutions Cyf. yn arbenigo mewn datblygu meddalwedd a darpariaethau gwasanaeth i fanciau a diwydiannau geo-wyddoniaeth, lle mae'r galw am gyfnewid data ar draws y we a chymryd rhan mewn "rhith fasnachu" yn cynyddu'n gyflym.

Roedd y cwmni, sy'n deillio o gwmni a oedd wedi'i leoli yn Tyne and Wear yn flaenorol, angen lleoliad cost effeithiol ar gyfer eu gweithrediadau. Maent wedi symud i adeiladau Cyngor Sir Gwynedd i gychwyn tra byddant yn gwneud cais am Gymorth Rhanbarthol Dewisol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac yn chwilio am adeiladau parhaol ar gyfer y swyddfa.

Cafodd buddsoddiad o £680,000 i ariannu lansio'r cwmni ei sicrhau drwy gyfuniad o gyllid preifat, cymorth grant Llywodraeth Cynulliad Cymru a buddsoddiad "Mezzanine" cyntaf Cyllid Cymru, sy'n cyflwyno cymysgedd o nawdd benthyg ac ecwiti mewn pecyn sydd wedi'i greu i addasu anghenion cwmnïau unigol.


Mae'r cwmni ym Mlaenau Ffestiniog hefyd wedi cael grant SPUR a chymorth gan MasnachCymru Rhyngwladol ar gyfer taith fasnach i Houston, Texas.

## PRESTIGE MOBILITY

**Bangor (arloesedd)**

Mae Prestige Mobility ym Mangor yn arbenigo mewn gwerthu sgwteri newydd neu sgwteri wedi'u hadnewyddu, cadeiriau olwyn trydan a chadeiriau pŵer. Cafodd y cwmni wobr SMART yn ystod y flwyddyn am ymchwilio a datblygu cynnyrch symudoledd gwell.

I ariannu ei gynlluniau i ehangu, helpodd adrannau Cefnogi Busnes a Menter y WDA yng Ngogledd Cymru y cwmni i ymgeisio'n llwyddiannus am grant Cymorth Rhanbarthol Dewisol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae Prestige Mobility hefyd wedi gweithio gyda'r Awdurdod i brynu uned ffatri 12,000 troedfedd sgwâr ar Ystad Ddiwydiannol Llandegai, lle mae'n bwriadu creu 26 o swyddi ychwanegol.



## MARIX DRUG DEVELOPMENT LTD.

**Llantrisant (innovation)**

WDA assistance helped Marix Drug Development Ltd. construct a clinical research and development centre at Llantrisant, which has given Wales a new capability for advanced research and development in the pharmaceutical sector.

Marix investigates its clients' ideas for new medicines, identifies those with the potential to be medically valuable and commercially viable – and develops and tests them to the stage at which they will be ready for market launch. The company was formed in 2001 and was backed by Regional Selective Assistance grant-aid from the Welsh Assembly Government.

Working closely with Marix, the WDA intends that the company's R&D centre will provide a major boost to the Agency's plans for the development of a specialised science park at the Gwaun Elai site, close to the Royal Glamorgan Hospital and the Welsh headquarters of the National Blood Transfusion Service.




*uwchben ac ar y chwith eithaf* / above and far left

*ETL Solutions Cyf., Blaenau Ffestiniog*

ETL Solutions Ltd., Blaenau Ffestiniog

*Prif Weinidog Cymru Rhodri Morgan AC yn agoriad swyddogol Marix Drug Development Ltd., Llantrisant*

First Minster Rhodri Morgan AM at the official opening of Marix Drug Development Ltd., Llantrisant

## ABERTECHNIUM

**Aberystwyth (innovation)**

Plans are well advanced for AberTechnium, the first Technium in Mid Wales, which provides a basis for the development of knowledge based businesses in Mid Wales. Situated adjacent to the WDA's offices at Y Lanfa, Aberystwyth, it will develop a community of strong and commercially successful high margin businesses.

*'A new capability for advanced research and development!'*

During 2002/03 work began on the fit-out of the building, including 14 high specification offices, three meeting rooms, four bioscience laboratories and a 'hot-desk' area. The hot-desk area is a special feature of AberTechnium, enabling individuals to use Technium facilities and expertise of staff for short periods, to help develop their business ideas. Users of the hot-desk facility can then move on to become full Technium tenants once their business plan is in place.

## ETL SOLUTIONS LTD.

**Blaenau Ffestiniog (inward investment)**

ETL Solutions Ltd. specialise in software development and service provisions for banks and the geo-science industries, where demand for exchanging data across the web and taking part in "virtual" trading is increasing rapidly.

Derived from a company previously based in Tyne and Wear, the company needed a cost effective location for their operations. They have initially moved into Gwynedd County Council premises whilst applying for Regional Selective Assistance from the Welsh Assembly Government and seeking permanent office premises.

A £680,000 investment to finance the company's launch was secured through a combination of private finance, Welsh Assembly Government grant aid and the first Finance Wales "Mezzanine" investment, which deliver a mix of loan and equity funding in a package tailored to meet individual companies' needs.

The company, based at Blaenau Ffestiniog, has also received a SPUR grant and assistance from WalesTrade International for a trade mission to Houston, Texas.

## PRESTIGE MOBILITY

**Bangor (innovation)**

Prestige Mobility, based in Bangor, specialises in selling new or reconditioned scooters, electric wheelchairs and power chairs. The company received a SMART award during the year for research and development of improved mobility products.

To fund its expansion plans, the WDA's Business Support and Enterprise departments in North Wales helped the company apply successfully for a Regional Selective Assistance grant from the Welsh Assembly Government. Prestige Mobility also worked with the Agency to complete the purchase of a 12,000 sq. ft. factory unit at Llandegai Industrial Estate where it intends to create 26 additional jobs.





*ar y dde* / right

*International Component Services Cyf., Bae Colwyn*

International Component Services Ltd., Colwyn Bay

*chwith ac isod* / left and below

*Airbus UK, Brychdwn* / Broughton





## *INTERNATIONAL COMPONENT SERVICES CYF. (ICS CYF.)*

**Bae Colwyn (arloesedd)**

Trwy weithio gyda Thîm Nwyddau a Gwasanaethau Amgylcheddol y WDA, sicrhaodd ICS Cyf. gefnogaeth ariannol i brynu offer newydd hanfodol. Mae'r cwmni'n arbenigo mewn cyrchu, ailgylchu a chael gwared ag offer electronig ar gyfer y sectorau diwydiannol, masnachol a milwrol, ac mae ar hyn o bryd yn ystyried sefydlu swyddfa newydd yn Singapôr fel rhan o'i gynlluniau i ehangu.

Mae nifer o gwsmeriaid, megis heddluoedd a'r Weinyddiaeth Amddiffyn, yn delio â chryn dipyn o wybodaeth gyfrinachol, a phan fyddant yn uwchraddio cyfrifiaduron, mae arnynt angen sicrhau bod data o'r fath yn cael ei dynnu oddi ar yr hen system yn gyfan gwbl. Mae ICS Cyf. yn darparu dull diogel o gael gwared ar wybodaeth gyfrinachol fel hyn ac mae'n darparu 'Tystysgrif Difrodi Data' ar ôl gorffen y gwaith.

Mae'r fenter Nwyddau a Gwasanaethau Amgylcheddol wedi'i lansio gan y WDA a Llywodraeth Cynulliad Cymru i helpu cwmnïau i fanteisio ar dwf cyfleoedd masnachu yn y DU a thramor ar gyfer nwyddau a gwasanaethau amgylcheddol.

## *AIRBUS UK*

**Brychdwn (ehangiad)**

Nodwyd ehangiad parhaus Airbus UK ym Mrychdwn, Sir y Fflint ym mis Ionawr 2003 gan agoriad swyddogol Ffatri Ddwyreiniol newydd y cwmni gan y Prif Weinidog Rhodri Morgan.

Mae'r datblygiad yn rhan o ehangiad cyffredinol safle Airbus UK, lle bydd yr adenydd ar gyfer yr awyren 'Super Jumbo' A380 newydd, ymhlith pethau eraill, yn cael eu gwneud.

Bu cefnogaeth gwerth £14.6 miliwn gan y WDA i'r prosiect o gymorth i Airbus ymgymryd â'r prosiect fel rhan o becyn buddsoddiad cyffredinol o tua £280 miliwn ym Mrychdwn. Fe wnaeth y penderfyniad hwn nid yn unig ddiogelu'r 3,000 o swyddi presennol ym Mrychdwn, ond fe arweiniodd hefyd at greu 500 o swyddi newydd.

Mae yna gynlluniau pellach i recriwtio 1,200 o weithwyr eraill erbyn diwedd 2004.

## *NEEM BIOTECH CYF.*

**Caerdydd (arloesedd)**

Mae cwmni biowyddoniaeth yng Nghymru sydd wedi datblygu arbenigedd trwy'r byd mewn tynnu cyfansoddion purdeb uchel allan o blanhigion, wedi sicrhau dau lwyddiant arwyddocaol.

Cofnododd Neem Biotech Cyf. yng Nghaerdydd – cwmni a lansiwyd gyda chymorth arian a godwyd trwy rwydwaith "Business Angel" Xénos, sy'n rhan o Gyllid Cymru – ei lwyddiant mawr cyntaf trwy dynnu Allicin, sef y cyfrwng gweithredol sy'n rhoi'r priodweddau a'r arogl adnabyddus i arlleg.

Mae prawf annibynnol wedi dangos bod pils sy'n cynnwys Allicin yn llwyddiannus iawn yn erbyn annwyd a'r ffliw, ac maent bellach yn cael eu marchnata gan bartner Neem, sef Nopex Cyf., dan yr enw brand Allumax.

Toddiant naturiol, diwenwyn ar gyfer llau pen oedd ail gynnyrch llwyddiannus Neem Biotech, sy'n defnyddio echdynnyn o hedyn y goeden Neem.

## *GENERAL DYNAMICS*

**Oakdale (buddsoddiad o'r tu allan)**

Lansiodd General Dynamics UK Cyf. un o ganolfannau Ymchwil a Datblygu gorau'r byd ar ei safle ym Mharc Busnes Oakdale ger Caerffili, lle bydd yn cyflogi mwy na 40 o dechnolegwyr, gwyddonwyr a pheiriannwyr medrus iawn mewn labordy newydd gwerth £4 miliwn.

Ystyriodd y cwmni, sy'n rhan o General Dynamics Corporation yr UD, safleoedd eraill yn America ac yn Ne Ddwyrain Lloegr, ond llwyddodd trafodaethau â Llywodraeth Cynulliad Cymru ac Awdurdod Datblygu Cymru i berswadio'r cwmni i ddewis lleoli'r cyfleuster newydd yng Nghymru.

Mae llwyddiant Cymru wrth ennill buddsoddiad General Dynamics yn adlewyrchu pwysigrwydd gweithgareddau adennill tir parhaus yr Awdurdod. Bydd y ganolfan newydd ar safle 140 hectar ar safle blaenorol pwll glo Oakdale, sy'n brosiect adfywio pwysig gwerth £9 miliwn.







*Neem Biotech Cyf. – o'r chwith i'r dde Robert Foakes (gyda'r garlleg!), Chandra Pant a'r angel busnes Mark White*

Neem Biotech Ltd. – left to right Robert Foakes (with the garlic!), Chandra Pant and business angel Mark White

## *INTERNATIONAL COMPONENT SERVICES LTD. (ICS LTD.)*

**Colwyn Bay (innovation)**

Working with the WDA's Environmental Goods and Services Team, ICS Ltd. secured financial support to buy essential new equipment. The company specialises in sourcing, disposing and recycling electronic equipment for the industrial, commercial and military sectors, and is currently considering establishing a new office in Singapore as part of its expansion plans

Many customers, such as police forces and the Ministry of Defence, deal with large amounts of confidential information and when it comes to upgrading computers they need to ensure that such data is completely removed from the old system. ICS Ltd provides a secure method of disposing of such confidential information and provides a 'Certificate for Destruction of Data' once the job is complete.

The Environmental Goods and Services initiative has been launched by the WDA and the Welsh Assembly Government to help companies take advantage of the growth of trading opportunities in the UK and overseas for environmental goods and services.

## *AIRBUS UK*

**Broughton (expansion)**

The continued expansion of Airbus UK at Broughton, Flintshire, was marked in January 2003 by the official opening of the company's new East Factory by First Minister Rhodri Morgan.

The development is part of the overall expansion of the Airbus UK site where, amongst other things, the wings for the new A380 'Super Jumbo' aircraft will be made.

WDA backing worth £14.6 million for the project helped Airbus undertake the project as part of an overall investment package of some £280 million at Broughton. This decision not only secured the existing 3,000 jobs at Broughton but also triggered the creation of 500 new jobs.

There are further plans to recruit another 1,200 workers by the end of 2004.

## *NEEM BIOTECH LTD.*

**Cardiff (innovation)**

A Welsh bioscience company that has developed a world class expertise in extracting high purity compounds from plants has notched up two significant successes.

Cardiff-based Neem Biotech Ltd. – a company launched with the aid of funds raised through the Xénos "Business Angel" network, which is part of Finance Wales – recorded its first major success by extracting Allicin, the active agent that gives garlic its well known properties and smell.

An independent trial has shown that capsules containing Allicin are highly successful against colds and flu, and they are now being marketed by Neem's partner Nopex Ltd. under the brand name Allumax.

Neem Biotech's second successful product was a natural, non toxic solution for head lice using Azadirachtin, an extract from the seed of the Neem tree.



## *GENERAL DYNAMICS UK LTD.*

**Oakdale (inward investment)**

General Dynamics UK Ltd. launched a world-class Research and Development centre at its Oakdale Business Park site near Caerphilly, where it will employ more than 40 highly skilled technologists, scientists and engineers in a £4 million new laboratory setting.

The company, part of General Dynamics Corporation of the US, considered alternative sites in both America and the South East of England, but negotiations with the Welsh Assembly Government and the Welsh Development Agency persuaded the company to choose Wales for the new facility.

Wales' success in winning the General Dynamics investment reflects the importance of the Agency's continuing land reclamation activities. The new centre will be situated on a 140 hectare site on the former Oakdale colliery, a major £9 million regeneration project.



*Parc Aerofod Sain Tathan*

*St Athan Aerospace Park*



## GWIR FLAS / TRUE TASTE 2002

Bu dau ddeg saith o gwmnïau yn arddangos dan faner Cymru: Y Gwir Flas gydag Awdurdod Datblygu Cymru yn yr Arddangosfa Fwyd Ryngwladol eleni yn Llundain; dyma'r nifer mwyaf erioed o gwmnïau o Gymru. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ymwelodd 130 o gwmnïau bwyd a diod ag arddangosfeydd ledled y byd, gan gynnwys arddangosfa fawr SIAL ym Mharis, y Fancy Food Fair yn Efrog Newydd, Organex (Llundain) ac Wythnos Lletygarwch, Birmingham.

*'Y potensial i greu miloedd o swyddi i grefftwyr'*

Llwyddodd gwobrau bwyd a diod cyntaf erioed Cymru–Gwir Flas / True Taste 2002 – i ddenu dros 500 o geisiadau gan fwy na 200 o gwmnïau yn ystod eu blwyddyn gyntaf. Roedd y 38 a enillodd wobr yn rhychwantu'r gadwyn fwyd gyfan, o gynhyrchu i brosesu i adwerthu ac arlwyo, ac maent yn sôn yn barod am fanteision arwyddocaol i'w busnesau.




Mynychodd dros 50,000 o ymwelwyr yr arddangosfa Blas, a oedd yn arddangos cynhyrchion bwyd a diod gorau Cymru. Mae Blas, a gynhaliwyd yn Hen Lyfrgell Caerdydd rhwng mis Ionawr ac Ebrill 2003, wedi profi mor boblogaidd ymhlith ymwelwyr nes y bydd bellach yn parhau i fod ar agor, ac yn cael ei redeg gan Gyngor Dinas Caerdydd mewn partneriaeth â'r WDA.

## MAXSPORT
**Rhaeadr Gwy (buddsoddiad o'r tu allan)**

Yn ystod blwyddyn ariannol 2002/03, llwyddodd y WDA i lenwi pob un o'i unedau busnes presennol ym Mharc Menter Brynberth a Pharc Menter East Street, Rhaeadr Gwy.

Nodwyd y cyflawniad gan fuddsoddiad o'r tu allan gan Maxsport a brynodd ffatri breifat. Mae'r cwmni yn un o'r prif gwmnïau ailfowldio teiars sy'n cyflenwi'r sector chwaraeon ceir rhyngwladol ac yn ymfalchïo yn ei safonau ansawdd uchel yn ogystal â'i gymwysterau amgylcheddol trwy ailfowldio teiars sydd wedi'u defnyddio.

Gyda chynlluniau i greu hyd at 30 o swyddi yng Nghefn Gwlad Cymru, mae'r cwmni'n ailfowldio teiars yn benodol ar gyfer y diwydiant chwaraeon ceir, ac ar hyn o bryd yn cyflogi chwech o bobl. Mae Maxsport wedi buddsoddi'n sylweddol yn y prosiect, gan gynnwys gosod y peiriannau ailfowldio teiars diweddaraf.

## JOE'S ICE CREAM
**Y Mwmbwls (ehangiad)**

Mae'r galw mawr am gynnyrch ardderchog wedi galluogi Joe's Ice Cream i dyfu o fod yn un Parlwr Hufen Iâ yn Y Mwmbwls yn Abertawe i fod yn gwmni â thair ffatri. Mae Joe bellach yn cyflenwi dros 250 o ganolfannau adwerthu, gan gynnwys Sainsbury's, ac mae hefyd wedi canfod nifer o farchnadoedd cyfanwerthu newydd.

Er mwyn helpu Joe i baratoi ar gyfer twf yn y dyfodol, darparodd y WDA Grant Prosesu a Marchnata i'w helpu i brynu offer ychwanegol sy'n hanfodol ar gyfer datblygu'r busnes.

## PARC AEROFOD SAIN TATHAN

Mae'r WDA yn bwriadu creu un o Barciau Busnes Aerofod mwyaf blaenllaw Ewrop yn Sain Tathan ym Mro Morgannwg.

Gwnaed y prosiect yn bosibl pan gadarnhaodd DARA (yr Asiantaeth Atgyweirio Awyrennau Amddiffyn) y byddai'n mynd ymlaen gyda phrosiect £77 miliwn yn Sain Tathan er mwyn canolbwyntio ei gyfleusterau presennol, sydd wedi'u gwasgaru'n eang, dan un to safle cynnal ac atgyweirio newydd sy'n un o'r goreuon yn y byd.

Golygai'r cam hwn y byddai tua 325 hectar (800 o erwau) o dir yn cael eu rhyddhau ar gyfer datblygiad newydd, a chyfnewidiwyd contractau i brynu'r safle gan y Weinyddiaeth Amddiffyn ym mis Chwefror.

Mae cynllunwyr yr Awdurdod yn credu bod gan y Parc Busnes Aerofod arfaethedig y potensial i greu miloedd o swyddi i grefftwyr, gan roi cyfle i Gymru arwain gweddill y DU yn y sector cynnal, atgyweirio ac archwilio aerofod sy'n prysur dyfu.






*uwchben* / above

*Maxsport – buddsoddwr diwethaf yn Rhaeadr Gwy*

Maxsport - latest investor in Rhyader

*isod* / below

*Joe's Ice Cream, Y Mwmbwls*

Joe's Ice Cream, Mumbles

## TRUE TASTE / GWIR FLAS 2002

Twenty-seven companies exhibited under the Wales: The True Taste banner with the Welsh Development Agency at this year's International Food Exhibition in London, Wales' largest ever presence. During the last year there were 130 Welsh food and drink company visits to exhibitions across the world, including the major SIAL exhibition in Paris, the New York Fancy Food Fair, Organex (London) and Hospitality Week, Birmingham.

*'The potential to create several thousand skilled jobs'*

The first ever Wales food and drink awards – True Taste / Gwir Flas 2002 – attracted more than 500 entries from over 200 companies in their first year. The 38 award winners spanned the entire food chain from production through processing to retail and catering, and already report significant benefits to their businesses.

Over 50,000 visitors attended the Blas exhibition, which showcased top food and drinks products from Wales. Blas (Welsh for 'taste'), staged in Cardiff's Old Library between January and April 2003, has proved so popular with visitors that it will now remain open, run by Cardiff City Council in partnership with the WDA.

## MAXSPORT

**Rhayader (inward investment)**

During the 2002/03 financial year, the WDA succeeded in filling all its existing business units on the Brynberth Enterprise Park and East Street Enterprise Park, Rhayader.

The completion was marked with the inward investment of Maxsport who purchased a privately-owned factory. The company is one of the leading tyre remoulding companies supplying the international autosport sector and prides itself on high quality standards as well as its environmental credentials through the remoulding of used tyres.

With plans to create up to 30 jobs in this part of Rural Wales, the company remoulds tyres specifically for the autosport industry, and currently employs six people. Maxsport has made a substantial investment in the project, including installation of state-of-the-art tyre re-moulding machines.

## JOE'S ICE CREAM

**Mumbles (expansion)**

Strong demand for an excellent product has enabled Joe's Ice Cream to grow from a single Ice Cream Parlour in the Mumbles, Swansea, to a company with three factories. Joe's now supplies over 250 retail outlets, including Sainsbury's, and has also identified several new wholesale markets.

To help Joe's gear up for future growth, the WDA provided a Processing and Marketing Grant to help purchase additional equipment vital to the development of the business.

## ST. ATHAN AEROSPACE PARK

At St. Athan, in the Vale of Glamorgan, the WDA plans to create one of Europe's leading Aerospace Business Parks.

The project was made possible when DARA (the Defence Aviation Repair Agency) confirmed that it would go ahead with a £77 million project at St. Athan to concentrate its existing, widely dispersed facilities under one roof in a new world-class maintenance and repair base.

The move meant that some 325 hectares (800 acres) of land would be freed for new development, and contracts were exchanged to purchase the site from the Ministry of Defence in February.

Agency planners estimate that the proposed Aerospace Business Park has the potential to create several thousand skilled jobs and give Wales an opportunity to lead the rest of the UK in the fast growing aerospace maintenance, repair and overhaul sector.





*Cynt a chwedyn yn Ardal y Llechen, Gwynedd – Felin Fawr, Bethesda*

Before and after in the Gwynedd Slate Valleys – Felin Fawr, Bethesda







# gweithredu i gefnogi cymunedau

## *ARDAL Y LLECHEN, GWYNEDD*

Cafodd llwyddiant menter Ardal y Llechen, Gwynedd ei gydnabod gan y Sefydliad Brenhinol Cynllunio Tref trwy Wobr Aur am Gyflawniad Cynllunio yng Nghymru ym mis Rhagfyr 2002 a chafodd wobr genedlaethol am Gynllunio Cymunedol mewn Ardaloedd Gwledig ym mis Ionawr 2003.

Cafodd Menter Ardal y Llechen ei ffurfio gan bartneriaeth o fuddiannau sector cyhoeddus a phreifat dan arweiniad Cyngor Gwynedd, a llwyddodd i sicrhau Arian Her Cyfalaf am gyfnod o dair blynedd yn cychwyn ym 1999. Cymerodd y fenter ymagwedd arloesol at adfywio, gydag ymagwedd yn seiliedig ar y gymuned a hyrwyddodd fanteision cynhenid yr ardal i'r eithaf.

Roedd chwe chynllun cyfansoddol Cynnig Her Cyfalaf yn amrywio o ddarparu gweithdai ac adeiladau masnachol eraill i gwmnïau lleol, mentrau hyfforddi a medrau a rhaglenni datblygu busnes.

## *PENTREF TREFOL LLANDARSI*

Cafodd cynlluniau ar gyfer y Pentref Trefol cyntaf erioed yng Nghymru eu datgelu yn gynnar yn ystod 2003. Mae Pentref Trefol Llandarsi yn brosiect sydd ag arwyddocâd rhyngwladol – y prosiect adfywio tir llwyd mwyaf uchelgeisiol a gynhaliwyd yng Nghymru erioed, a phrosiect newydd blaenllaw yng Nghymru ar gyfer datblygiad cynaliadwy.

Gallai'r gwaith yn Llandarsi gymryd ugain mlynedd i'w gwblhau a gallai gynhyrchu effaith economaidd gyfan gwbl dros gyfnod bywyd y prosiect o £1.2 biliwn. Bydd yn golygu dadgomisiynu cyn safle purfa olew BP ac yn gorchuddio ardal sy'n rhychwantu bron i ddwy filltir sgwâr.

Mae prosiect y Pentref Trefol bellach yn cael ei ddatblygu gan bartneriaeth sy'n cynnwys Awdurdod Datblygu Cymru, BP, Sefydliad y Tywysog a Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, gyda chefnogaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru. Bydd eu cynlluniau'n creu cymuned gynaliadwy, gydag ystod eang o adeiladau preswyl a busnes, ynghyd â chyfleoedd gwaith ac adnoddau a chyfleusterau lleol.

## *LLANHILEDD*

Mae cymuned Llanhiledd ym Mlaenau Gwent ar fin mynd trwy broses adfywio sylweddol gwerth £10 miliwn a allai fod yn fodel sylfaen ar gyfer cynlluniau eraill ledled Cymru.

Mae'r cynllun adfywio'n cynnwys mynediad ffordd gwell o lawer i'r pentref ac Ystad Ddiwydiannol Llanhiledd. Mae'r gwelliannau hyn yn cynnwys gwella'r ffordd gyswllt bresennol yn ogystal ag adeiladu cyffordd newydd ar yr A467, gan gynnwys lonydd trylifo, ynysoedd traffig a signalau traffig. Bydd unedau busnes newydd hefyd yn cael eu hadeiladu yn ogystal â phafiliwn chwaraeon dau lawr a chlwb aelodau ar y maes chwaraeon.

Bydd yr ail gam yn cynnwys adeiladu ysgol newydd a gwaith isadeiledd pellach. Mae'r rhain yn cynnwys gwelliannau i sgwâr y pentref a phont dros y rheilffordd, ynghyd â chysylltiadau â chynllun arfaethedig Rheilffordd Glynebwy sydd wedi'i gynllunio i ddarparu gwasanaeth i deithwyr rhwng Caerdydd a Glynebwy yn 2005, gyda gorsaf newydd yn Llanhiledd. Ar ôl cyfranogiad eang yn y gymuned leol, bydd y Sefydliad pedwar llawr yn Llanhiledd hefyd yn cael ei adnewyddu a'i integreiddio'n llawn â'r ysgol gynradd newydd, gan arwain at brosiect cymunedol ehangach yn seiliedig ar gysyniad 'canolfan byw'n iach'.

Caiff y gwaith ei gydlynu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent. Yn ogystal â'r awdurdod lleol a'r WDA, daeth cefnogaeth ar gyfer y cynllun gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, sydd wedi clustnodi £5.96 miliwn, gyda chefnogaeth bellach gan y Gronfa Adfywio Lleol, arian Amcan Un Ewropeaidd a Chymunedau'n Gyntaf.

*chwith eithaf a'r dudalen hon /*
far left and this page

*Argraffiadau arlunydd o Bentref Trefol Llandarcy*

Artist's impressions of Llandarcy Urban Village







# action to support communities

## *GWYNEDD SLATE VALLEYS*

The success of the Gwynedd Slate Valleys initiative was recognised by the Royal Town Planning Institute through a Gold Award for Planning Achievement in Wales in December 2002 and a national award for Community Planning in Rural Areas in January 2003.

The Slate Valleys Initiative was formulated by a partnership of public and private sector interests led by Gwynedd Council and was successful in securing Capital Challenge Funding for a three year period starting in 1999. The initiative took an innovative approach to regeneration, with a community based approach which maximised the intrinsic advantages of the area.

The six constituent schemes of the Capital Challenge Bid ranged from provision of workshops and other commercial premises for local companies, training and skills initiatives and business development programmes.

## *LLANDARCY URBAN VILLAGE*

Plans for Wales' first ever Urban Village were unveiled early in 2003. Llandarcy Urban Village is a project of international significance – the most ambitious brownfield regeneration project ever undertaken in Wales and a new Welsh flagship for sustainable development.

The work at Llandarcy could take twenty years to complete and generate a total economic impact over the project's lifetime of £1.2 billion pounds. It will involve decommissioning and redeveloping a former BP oil refinery site and cover an area spanning nearly two square miles.

The Urban Village project is now being taken forward by a partnership involving the Welsh Development Agency, BP, the Prince's Foundation and Neath Port Talbot County Borough Council, with the support of the Welsh Assembly Government. Their plans will create a sustainable community, with a wide range of residential and business premises together with employment opportunities and local amenities and facilities.


## *LLANHILLETH*

The Blaenau Gwent community of Llanhilleth is set for a major £10 million regeneration process that could become the foundation model for other schemes across Wales.

The regeneration scheme includes greatly improved road access to the village and Llanhilleth Industrial Estate. These improvements involve upgrading the existing link road as well as constructing a new junction on the A467 including filter lanes, traffic islands and traffic signals. New business units will be constructed as well as a two-storey sports pavilion and members' club on the recreation field.

A second stage will involve building a new school and further infrastructure works. These include improvements to the village square and a bridge over the railway, together with links to the proposed Ebbw Valley Railway scheme which is planned to provide a passenger service between Cardiff and Ebbw Vale in 2005, with a new station in Llanhilleth. After extensive participation within the local community, the existing four storey Institute at Llanhilleth will also be refurbished and fully integrated with the new primary school resulting in a wider community project based on a 'healthy living centre' concept.

Work is co-ordinated by Blaenau Gwent County Borough Council. As well as the local authority and the WDA, backing for the scheme has come from the Welsh Assembly Government which has earmarked £5.96 million, with further support coming from the Local Regeneration Fund, European Objective 1 funds and Communities First.



*Dathlu llwyddiant – Rockfield Software, cwmni wedi'i leoli yng nghanolfan Technium y WDA yn Abertawe, arweinydd y byd ym maes modelu cyfrifiadurol, a enillodd Wobr y Frenhines ar gyfer Mentergarwch am gyflawniad rhagorol mewn arloesi*

Celebrating success – Rockfield Software, based in the WDA's Swansea Technium Centre, a world leader in the field of computational modelling for industry won the Queen's Award for Enterprise for outstanding achievement in innovation.





## *WRECSAM*

Cafodd Partneriaeth Wrecsam Wobr Arfer Gorau Cymdeithas Adfywio Trefol Prydain (BURA) fel "enghraifft ragorol o adfywio". Roedd y wobr yn un o bump o wobrau'n unig i gael eu cyflwyno gan y Pwyllgor Arfer Gorau a feirniadodd yr enwebiadau.

Cafodd Partneriaeth Wrecsam, sy'n cynnwys Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Awdurdod Datblygu Cymru a, thrwy Fforwm Canol y Dref, defnyddwyr allweddol y dref, ei lansio ym 1994 i nodi a helpu dileu rhwystrau i fuddsoddiad o'r sector preifat. Yn achos Wrecsam, roedd delwedd faterol y dref yn adlewyrchu ei rôl flaenorol fel canolbwynt diwydiant sylfaenol ac yn gweithredu fel rhwystr i ddiwydiant mwy modern a chyflogwyr o radd uwch.

Mae Partneriaeth Wrecsam wedi gweithio'n galed ac yn llwyddiannus i wella a datblygu safleoedd allweddol ac ysgogi buddsoddiad o'r sector preifat. Hyd yma, mae cyfanswm buddsoddiad y sector cyhoeddus o £14 miliwn wedi dod â dros £170 miliwn o fuddsoddiad o'r sector preifat i mewn; ac mae llwyddo i glustnodi rhwystrau buddsoddiad sector preifat i gyfleoedd buddsoddi ehangach wedi galluogi'r Awdurdod i helpu i sicrhau gwelliannau economaidd mawr ar gyfer y wlad yn ystod bywyd y strategaeth.

## *PENRHYNDEUDRAETH, GWYNEDD*

Penrhyndeudraeth yw 'Pentref Rhwydweithiol' cyntaf y DU. Mae'r pentref, a gafodd gefnogaeth gyntaf gan y WDA dan y cynllun Menter Tref Farchnad, wedi mynd o nerth i nerth, gan ddatblygu i fod yn gymuned ryngweithiol uwch-dechnolegol.

Gyda chefnogaeth ystod o bartneriaid, gan gynnwys y WDA, lansiodd y grŵp cymunedol Deudraeth Cyf. nifer o brosiectau yn ystod 2002, gan gynnwys Llys Deudraeth, a agorwyd yn swyddogol gan Gadeirydd y WDA, Roger Jones OBE, ym mis Medi 2002. Mae'r prosiect, sydd wedi'i leoli yn hen orsaf heddlu'r pentref, yn gartref i ystod o gyfleusterau cymunedol, gan gynnwys yr offer cyfrifiadurol a chyfathrebu diweddaraf, sydd wedi'u hanelu'n bennaf at gefnogi hyfforddiant ar gyfer cyfleusterau TGCh ac isadeiledd presennol y pentref. Mae hefyd yn gartref i lyfrgell y gymuned, stiwdio radio newydd BBC Cymru/Wales a swyddfeydd ar gyfer asiantaeth fenter leol, Antur Dwyryd Llŷn.

Cafodd y prosiect ei gefnogi gan Gyngor Sir Gwynedd a Llywodraeth Cynulliad Cymru trwy'r Gronfa Adfywio Lleol, yn ogystal â chan ELWa, y WDA a Chyngor Tref Penrhyndeudraeth.

Cafodd prosiect Y Dyffryn Digidol ei lansio yn gynnar yn ystod 2003 i ddarparu mynediad band eang fforddiadwy i'r rhyngrwyd trwy dechnoleg radio ar gyfer tai a busnesau ym Mhenrhyndeudraeth, Blaenau Ffestiniog, Maentwrog, Talsarnau, Harlech a Phorthmadog.

## *PIRELLI CABLE*

**Casnewydd**

Gweithiodd tîm Datblygiad Tir a Gwasanaethau Cyfreithiol yr Awdurdod gyda Newport Unlimited, sef cwmni adfywio trefol sydd newydd gael ei ffurfio, i brynu safle 26 acer cyn ffatri Pirelli Cable yn Stryd Telford. Bydd adeilad 460,000 o droedfeddi sgwâr yn cael ei glirio i wneud lle ar gyfer datblygiad newydd.

Mae lleoliad strategol y safle, sy'n agos at Ganol y Ddinas a dim ond pedair milltir o gyffordd agosaf y draffordd, yn golygu ei fod mewn man delfrydol i leoli defnyddwyr newydd sy'n creu swyddi. Bydd yn gymorth sylweddol i'r broses adfywio trwy weithio fel canolfan newydd ar gyfer busnesau sy'n symud o safleoedd ailddatblygu yng nghanol Casnewydd.

## *DEGANWY*

Darparodd y WDA nawdd o £986,000 ar gyfer cynllun adennill tir pwysig y sector preifat yn Noc Deganwy, Conwy.

Lifetime Projects Cyf. a brynodd y safle, a adeiladwyd yn wreiddiol yn ystod y 1880au, a bydd yn darparu datblygiad defnydd cymysg yn cynnwys marina â lle i 200 o gychod, gydag adeiladau ar gyfer swyddfeydd, argae, iard atgyweirio cychod, adeilad ar gyfer derbyniadau/hamdden/ cynadleddau, gwesty pum seren â 60 ystafell wely, 71 o dai moethus ac adeilad clwb hwylio/harbwrfeistri.

Bydd llwybrau troed a beicio hefyd yn cysylltu'r safle â Deganwy a Chonwy. Bydd y prosiect yn adennill 5.83 hectar o dir diffaith, ac yn creu 35 o swyddi amser llawn a 55 o swyddi rhan-amser. Bydd buddsoddiad o tua £9.2 miliwn yn dod o'r sector preifat, a bydd £1.5 miliwn o arian Amcan 1 hefyd ar gael.





*Roger Jones, Cadeirydd y WDA, yn agoriad Llys Deudraeth*

WDA Chairman Roger Jones at the opening of Llys Deudraeth

*chwith eithaf* / far left

*Adfer tir yn Noc Deganwy, Conwy*

Land reclamation in Deganwy Dock, Conwy

## WREXHAM

The Wrexham Partnership received a British Urban Regeneration Association (BURA) Best Practice Award as an “outstanding example of regeneration”. The Award was one of only five presented by the Best Practice Committee who judged the nominations.

The Wrexham Partnership, comprising Wrexham County Borough Council, the Welsh Development Agency and, through the Town Centre Forum, key users of the town, was launched in 1994 to identify and help remove barriers to private sector investment. In Wrexham’s case, the physical image of the town reflected its former role as a centre of primary industry and acted as a deterrent to more modern industry and higher order employers.

The Wrexham Partnership has worked hard and successfully to improve and develop key sites and stimulate wider private sector investment. To date, total public sector investment of £14 million has levered in over £170 million private sector investment; and correct identification of private sector investment barriers to wider investment opportunities has enabled the Agency to assist in securing major economic improvements for the county over the lifetime of the strategy.

## PENRHYNDEUDRAETH, GWYNEDD

Penrhyndeudraeth has become the UK’s first ‘Networked Village’. Originally supported by the WDA under the Market Town Initiative, the village has gone from strength to strength, developing itself into a high-tech interactive community.

With the support of a range of partners, including the WDA, the community group Deudraeth Cyf. launched several projects during 2002 including Llys Deudraeth, which was officially opened by WDA Chairman Roger Jones OBE in September 2002. Based in the town’s former police station, the project houses a range of community facilities including the latest computer and communications equipment primarily aimed at supporting training for the village’s existing ICT facilities and infrastructure. It is also base to the community’s library, a new BBC Cymru/Wales radio studio and offices for local enterprise agency, Antur Dwyryd Llŷn.

The project was supported by Gwynedd County Council and the Welsh Assembly Government through the Local Regeneration Fund, as well as by ELWa, the WDA and Penrhyndeudraeth Town Council.

The Digital Vale project was launched in early 2003 to provide affordable broadband access to the internet via radio technology to households and businesses in Penrhyndeudraeth, Blaenau Ffestiniog, Maentwrog, Talsarnau, Harlech and Porthmadog.

## PIRELLI CABLE

**Newport**

The Agency’s Land Development and Legal Services team worked with Newport Unlimited, the newly formed urban regeneration company, to acquire the 26 acre site of the former Pirelli Cable factory at Telford Street. A 460,000 sq.ft. building complex will be cleared to make way for new development.


The site’s strategic location close to the City Centre and only four miles from the nearest motorway junction means it is ideally placed to accommodate new job-creating users. It will assist the regeneration process significantly by serving as a new base for businesses relocating from redevelopment sites in central Newport.

## DEGANWY

The WDA provided funding of £986,000 for a major private sector land reclamation scheme at Deganwy Dock, Conwy.

Originally constructed during the 1880s, the site was acquired by Lifetime Projects Ltd. and will provide a mixed use development consisting of a 200 berth marina, with office buildings, a barrage, a boat repair yard, a reception/leisure/conference building, a 60 bed five star hotel, 71 luxury houses and a yacht club/harbourmaster building.

Footpaths and a cycleway will also connect the site to Deganwy and Conwy. The project will reclaim 5.83 hectares of derelict land, and create 35 full time and 55 part time jobs. Private sector investment will be in the region of £9.2 million and £1.5 million Objective 1 funding will also be drawn down.





*Cei Abermaw*

Barmouth Quay



## *CYFFORDD LLANDUDNO*

Mae'r Awdurdod wedi helpu Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i weithredu cam cyntaf cynllun i sicrhau gwelliannau amgylcheddol arwyddocaol i'r ardal o amgylch Gorsaf Drenau Cyffordd Llandudno.

Roedd Grant Gwella Tref o £425,000 yn rhan o becyn nawdd mwy ar gyfer prosiect dau gam gwerth £1.02 miliwn i wella'r ardal a chysylltu'r orsaf â safle tir llwyd cyfagos lle'r adeiladwyd sinema aml-sgrîn a chanolfan fusnes sy'n cael ei rheoli gan yr awdurdod lleol.

Mae gan y cynllun arwyddocâd ehangach, gan ei fod yn rhan o gynlluniau i greu cyfnewidfa gludiant a fydd yn gwasanaethu'r safle cyflogi strategol 18 hectar sydd wrthi'n cael ei baratoi ar gyfer datblygiad gan yr Awdurdod yn hen ffatri Hotpoint, Ardal Twf Twristiaeth Strategol Llandudno/Conwy/Deganwy, a datblygiad sector preifat marina a gwesty yn Noc Deganwy sydd wedi mynd â'i ben iddo.

*'Galluogi pobl leol i fod yn barneriaid gwirioneddol yn y broses adfywio'*

## *GLYN-NEDD*

Sefydlodd View Glynneath, sef menter ddatblygu leol yng Nghwm Nedd, ddau fusnes cymunedol newydd gyda chefnogaeth amryw o sefydliadau gan gynnwys Awdurdod Datblygu Cymru.

Rhyngddynt, creodd Meithrinfa Rompers a'r Caffi Seiber 11 o swyddi amser llawn a 36 o swyddi rhan-amser. Yn ogystal â chynnig bwydydd iach, mae The Java Bean Cyber Café yn ganolbwynt i bobl leol gyfarfod a chael gafael ar foddau astudio hyblyg.

Mae cynlluniau View Glynneath ar gyfer y dyfodol yn cynnwys prynu darn o dir i ddarparu mwy o gyfleoedd gwaith a chyflenwad o ffrwythau a llysiau wedi'u tyfu'n organig.

## *ABERGWAUN*

Mae'r Awdurdod wedi helpu talu costau gweinyddol rhedeg Cynllun Datblygu Ardal Gymraeg Abergwaun, sef prosiect arloesol sy'n anelu at hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg fel iaith gymunedol.

Mae'r cynllun yn ceisio cydlynu gweithgareddau sefydliadau partner a phobl leol er mwyn cynyddu'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith ac yn ystod amser hamdden a helpu datblygu addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn yr ardal.

## *MENTER ARFORDIROL MEIRIONNYDD*

**'Ar Draethau Llewyrchus'**

Mae Menter Arfordirol Meirionnydd yn seiliedig ar ymagwedd strategol a ddatblygwyd gan Gyngor Sir Gwynedd mewn partneriaeth â'r WDA a sefydliadau eraill, gan gynnwys grwpiau adfywio cymunedol. Sicrhaodd y Cyngor £1.38 miliwn o Gronfa Adfywio Lleol Llywodraeth Cynulliad Cymru i weithredu ystod o gynlluniau ar arfordir Meirionnydd sy'n cynnwys trefi a phentrefi Aberdyfi, Tywyn, Abermaw, Harlech a Phenrhyndeudraeth.

Mae'r fenter wedi galluogi pobl leol i fod yn bartneriaid gwirioneddol yn y broses adfywio, gan ddarparu cyfleoedd ar y lefel fwyaf lleol. Mae cynlluniau yn y pecyn yn cynnwys prosiectau isadeiledd i ysgogi datblygiad cynaliadwy y diwydiant twristiaeth, megis sefydlu parc bysiau yn Aberdyfi; gwella mynediad a chyfleusterau ar gyfer defnyddwyr traethau a chychod; gwella ardal Cei Abermaw; gwella ac adnewyddu eiddo masnachol ac adeiladau segur; a datblygu llwybrau beicio a fydd yn cysylltu â'r llwybr beicio cenedlaethol.

Mae gan y fenter dair blynedd gyllideb o tua £2.5 miliwn, gyda'r Awdurdod yn darparu nawdd ar gyfer Cei Abermaw, gwella adeiladau masnachol, a datblygu llwybrau beicio yn yr ardal. Bydd y fenter yn helpu codi hyder mewn busnes ac yn y gymuned, a disgwylir iddi greu neu sicrhau 52 o swyddi parhaol yn uniongyrchol. Disgwylir i hyn sicrhau £300,000 o fuddsoddiad sector preifat, cefnogi 10 o fusnesau newydd a darparu cymorth ar gyfer 18 o Fusnesau Bach a Chanolig.







## *MEIRIONNYDD COASTAL INITIATIVE*

**'Shores of Prosperity'**

The Meirionnydd Coastal Initiative is based on a strategic approach developed by Gwynedd County Council in partnership with the WDA and other organisations, including community regeneration groups. The Council secured £1.38 million of the Welsh Assembly Government's Local Regeneration Fund to implement a range of schemes located on the Meirionnydd coast which includes the towns and villages of Aberdyfi, Tywyn, Barmouth, Harlech and Penrhyndeudraeth.

The initiative has enabled local people to become genuine partners in the regeneration process, providing opportunities at the most local level. Schemes in the package include infrastructure projects to stimulate sustainable development of the tourism industry, such as establishing a coach park in Aberdyfi; improving access and facilities for both the beach and boat users; enhancing the Barmouth Quay area; upgrading and renovating commercial properties and redundant buildings; and developing cycle routes that will link with the national cycle route.

The three year initiative has a budget of around £2.5 million, with the Agency providing funding towards Barmouth Quay, the upgrading of commercial buildings, and the development of the cycle routes in the area. The initiative will help raise business and community confidence, and is anticipated to directly create or safeguard 52 permanent jobs. It is expected to lever in £300,000 of private sector investment, support 10 new business start ups and provide assistance for 18 SMEs.

## *LLANDUDNO JUNCTION*

The Agency has assisted Conwy County Borough Council to implement the first phase of a scheme to bring significant environmental improvements to the area around Llandudno Junction Station.

A £425,000 Town Improvement Grant was part of a larger funding package for a £1.02 million two-phase project to enhance the area and link the station with an adjoining brownfield site on which a multiplex cinema and a business centre managed by the local authority have been constructed.

*'Enabling local people to become genuine partners in the regeneration process'*

The scheme has wider significance, being part of proposals to create a transport interchange which will serve the 18 hectare strategic employment site currently being prepared for development by the Agency at the former Hotpoint factory, the Strategic Tourism Growth Area of Llandudno/Conwy/Deganwy, and the private sector development of a marina and hotel at the long derelict Deganwy Dock.

## *GLYNNEATH*

View Glynneath, a local development initiative in the Neath Valley, established two new community businesses with support from a range of organisations including the Welsh Development Agency.

Between them, Rompers Nursery and the Cyber café created eleven fulltime and 36 part-time posts. The Java Bean Cyber Café not only offers healthy eating, but also provides a focal point for local people to meet and have access to flexible modes of study.

Future plans by View Glynneath include acquiring an allotment to provide further job opportunities and a supply of organically grown fruit and vegetables.

## *FISHGUARD*

The Agency has helped meet the administrative costs of running the Fishguard Welsh Language Area Development Plan, an innovative project that aims to promote the use of Welsh as a community language.

The plan seeks to co-ordinate the activities of partner organisations and local people in order to increase the opportunities to use Welsh at work and at leisure and help develop Welsh-medium and bilingual education in the area.







## RHAEADR GWY

Mae partneriaeth weithredol a chadarn y Pecyn Adfywio Cymunedol, Rhaeadr Gwy 2000 Cyf., wedi cael cefnogaeth barhaus gan y WDA yn ystod 2002- 2003 tuag at ei chynlluniau ar gyfer y dref.

Mae'r grŵp partneriaeth, a sefydlwyd yn wreiddiol dan Fenter Tref Farchnad yr Awdurdod, wedi wynebu cyfnod o newid yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Penodwyd swyddog datblygu newydd a symudwyd swyddfa'r grŵp i adeilad yr Arches yng nghanol y dref a adnewyddwyd yn ddiweddar. Cafodd y cam hwn ei gefnogi gan yr Awdurdod trwy Grant Datblygu Eiddo, ac mae'n dwyn ynghyd ystod o grwpiau cymunedol a sefydliadau dan un to.

Yn ogystal â darparu man gwybodaeth ar gyfer y gymuned, mae'r grŵp wedi cyflwyno amrywiaeth o ddigwyddiadau a phrosiectau gan gynnwys Yr Ŵyl Awyr Agored a ddangosodd dirwedd Cwm Elan a'r gweithgareddau sydd gan yr ardal i'w cynnig, Treiathlon flynyddol Rhaeadr Gwy, cylchlythyr cymunedol, Cynllun Peintio'r Dref, sy'n cynnig cymorth ag atgyweirio ymddangosiad adeiladau, ac ail argraffiad o'r cynhoeddiad poblogaidd, Canllaw y Dref.

## SA1 GLANNAU ABERTAWE

Cyhoeddwyd cynlluniau ar gyfer 'SA1 Glannau Abertawe', sef datblygiad £200 miliwn Awdurdod Datblygu Cymru ym Mhorth Tawe.

Mae'r safle 100 erw defnydd cymysg sy'n amgylchynu Doc Tywysog Cymru eisoes yn gartref i Technium cyntaf Cymru, sy'n darparu lle ar gyfer deoryddion gyda gwasanaethau cefnogi mewnol i fusnesau newydd a chysylltiadau cryf ag adnoddau Addysg Uwch ac Addysg Bellach.

Roedd datblygiadau yn ystod y flwyddyn yn cynnwys gosod y sylfeini ar gyfer pont fydd yn dirnod gwerth £2 miliwn yn Abertawe, i groesi'r Afon Tawe rhwng Canolfan Dylan Thomas yn yr Ardal Forol a'r hen Ffatri Iâ. Mae hon yn un o ddwy bont i gerddwyr a fydd yn cael ei hadeiladu gan y WDA gyda nawdd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

## MEISGYN

Ym Meisgyn, ger Llantrisant, mae Gwasanaethau Cyfreithiol a Datblygiad Tir y WDA wedi gwerthu safle mawr ar gyfer tai mewn ardal lle roedd angen tir ar gyfer cartrefi newydd. Mae'r Awdurdod yn cadw safleoedd wrth gefn i ddarparu cyflenwad o dir ar gyfer datblygu tai a diwydiant.

Roedd gwerthu'r 9.5 erw yng Nghefn yr Hendy i Westbury Homes a Barratt Homes yn nodi cam olaf proses ddeng mlynedd sydd wedi cyflawni 900 o gartrefi ynghyd â digon o le agored.

Cafodd dau faes chwarae gyda'r holl offer angenrheidiol eu hadeiladu gan ddatblygwyr, ac mae'r Awdurdod hefyd wedi darparu safle ar gyfer Ysgol Gynradd newydd.

## LLWYBRO-ROUTES

Cafodd Llwybro-Routes ei lansio ym 1998 i ymchwilio i'r tueddiadau sy'n effeithio ar symudiadau pobl a addysgwyd yng Nghanolbarth Cymru yn ystod y 30 mlynedd diwethaf. Eleni, yn ogystal â datblygu gweithgareddau yng Nghanolbarth Cymru, gwnaed gwaith hefyd i ddatblygu fframwaith ar gyfer ymestyn y fenter i ardaloedd eraill, gan gynnwys ehangiad cyflym i gynnwys Gogledd Cymru.

Bydd y wybodaeth yn darparu adnodd unigryw ar gyfer olrhain datblygiad gyrfa a bywyd y bobl dan sylw, gan gadw eu cysylltiadau ag ardaloedd eu geni a'i gwneud yn haws i'r rheiny a orfodwyd i allfudo ar adegau tyngedfennol yn eu bywydau i ddychwelyd. Bydd hefyd yn darparu cronfa ddata medrau i hyrwyddo recriwtio gweithwyr arbenigol ac allweddol i gefnogi prosiectau buddsoddi brodorol ac o'r tu allan.

Yn ystod 2002- 2003, roedd gwaith ar y prosiect yn cynnwys datblygiadau ar ei wefan, cynhyrchu deunyddiau marchnata i gadw mewn cysylltiad â chyfranogwyr ar y gronfa ddata, a chysylltu cyflogwyr yn yr ardal sy'n dymuno recriwtio pobl sy'n dychwelyd i Gymru o ardaloedd eraill o'r Deyrnas Unedig neu dramor. Mae gwaith wedi'i gwblhau hefyd i gyflwyno'r prosiect i bobl ifanc 16 oed sy'n mynychu ysgolion uwchradd yng Nghanolbarth a Gogledd Cymru. Canlyniad y gwaith hwn fydd dyblu'r gronfa ddata i dros 12,000 o gyfranogwyr.

Gan benodi dau aelod o staff i weithio ar y prosiect, bydd gwaith Llwybro-Routes yn cynyddu yn ystod y tair blynedd nesaf i ddatblygu'r manteision i fudd-ddeiliaid a Chefn Gwlad Cymru.

*Pont Hwyl Abertawe ac (isod) adeilad Morgan Cole*

The Swansea Sail Bridge and (below) the Morgan Cole building





## RHAYADER

The active and well established Community Regeneration Tool-kit partnership, Rhayader 2000 Ltd., has received on-going support from the WDA during 2002- 2003 towards its plans for the town.

The partnership group, originally established under the Agency's Market Town Initiative, has been through a period of change during the past 12 months. A new development officer has been appointed and the group's office moved into the newly refurbished Arches building in the town centre. This move was supported by the Agency through a Property Development Grant, and brings together a range of community groups and organisations under one roof.

As well as providing an information point for the community, the group has delivered a variety of events and projects including The Festival of the Great Outdoors which showcased the landscape of the Elan Valley and activities the area has to offer, the annual Rhayader Triathlon, a community newsletter, the Town Paint Scheme, which offers help with cosmetic building restoration, and a reprint of the popular Town Guide.

## SA1 SWANSEA WATERFRONT

Plans have been published for 'SA1 Swansea Waterfront', the £200 million Port Tawe development by the Welsh Development Agency.

The 100-acre mixed use development site surrounding the Prince of Wales Dock is already home to Wales' first Technium, which provides incubator space combined with in-house support services for new businesses and strong links with the resources of Higher and Further Education.

Developments during the year included laying the foundations for Swansea's £2 million landmark river bridge to span the River Tawe between the Dylan Thomas Centre in the Maritime Quarter and the old Ice Factory. This is one of two pedestrian bridges which will be built by the WDA with funding from the Welsh Assembly Government.

## MISKIN

At Miskin, near Llantrisant, the WDA's Land Development and Legal Services completed the disposal of a major site for housing in an area where land for new homes was needed. The Agency maintains a reserve of sites to provide a supply of land for housing and industrial development.

The sale of 9.5 acres at Cefn yr Hendy to Westbury Homes and Barratt Homes marked the final major phase of a ten year process which has delivered 900 homes together with generous areas of open space.

Two fully equipped children's play areas have been constructed by developers and the Agency has also provided a site for a new Primary School.

## LLWYBRO-ROUTES

Llwybro-Routes was launched in 1998 to investigate the trends affecting the movements of people educated in Mid Wales during the past 30 years. During this year, as well as developing activities in Mid Wales, work has also been undertaken to develop a framework for rolling out the initiative to other areas, including accelerated expansion to include North Wales.

The information will provide a unique resource for tracking the career and lifestyle development of the people concerned, maintaining their links with their regions of origin and facilitating the return of those forced to out-migrate at critical points in their lives. It will also provide a skills database to facilitate recruitment of specialist and key workers to support indigenous and inward investment projects.

During 2002- 2003 work on the project included developments on its web-site, production of marketing materials to keep in touch with participants on the database, and linking employers in the region who wish to recruit people returning to Wales from other parts of the United Kingdom or abroad. Work has also been undertaken to introduce the project to 16 year olds attending secondary schools in Mid and North Wales. This work will result in the database doubling in size to more than 12,000 participants.

With the appointment of two members of staff to work on the project, the work of Llwybro-Routes will be stepped up during the next three years to bring forward the benefits to stakeholders and Rural Wales.



## CYNLLUN ADFER GWLEDIG

Rhoddwyd  rôl allweddol i'r WDA ddarparu agweddau ar Gynllun Adfer Gwledig Llywodraeth Cynulliad Cymru, sy'n cael ei gefnogi gan ddyraniad cyllideb sydd wedi'i sicrhau.

Mae'r Awdurdod yn defnyddio'r arian hwn i ategu cefnogaeth tymor hir ar gyfer datblygiad gwledig ac adfywiad cymunedol. Un egwyddor allweddol yw amrywio'r economi wledig, a chreu ystod eang o gyfleoedd swyddi o ansawdd.

Yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf, mae'r Awdurdod wedi defnyddio arian y Cynllun Adfer Gwledig i hyrwyddo ystod eang o ddatblygiadau gan gynnwys cefnogaeth ar gyfer unedau crefft, cefnogaeth ar gyfer y sector bwyd-amaeth a chymorth ar gyfer stiwdios aml-gyfrwng.

Mae'r Awdurdod hefyd wedi defnyddio arian gan y Cynulliad i hyrwyddo prosiect Coedwig Fferm a Bio-màs. Mae diwydiannau Coedwigaeth a Choed yn hanfodol i Gymru, yn cefnogi miloedd o swyddi mewn cymunedau gwledig. Mae coed yn adnodd sylfaenol cynaliadwy gyda marchnad sy'n tyfu a chyfleoedd cynyddol ar gyfer cynnyrch maint elw uchel a gwerth ychwanegol. Mae cynigion cyfredol yn cynnwys camau i sicrhau trosglwyddo technoleg a datblygiad y gadwyn gyflenwi.



## ARGYFWNG CORUS – PECYN ADFYWIO DUR

Mae'r Awdurdod wedi chwarae rôl flaenllaw wrth weithredu Pecyn Adfywio Dur £76 miliwn Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n helpu'r ardaloedd a effeithiwyd fwyaf gan y toriadau a gyhoeddwyd gan Corus ym mis Chwefror 2001 – Glynebwy, Gorseinon, Casnewydd a Shotton. Cafodd bron i hanner  y nawdd hwn - £36 miliwn – ei reoli trwy'r WDA.

Mae'r Awdurdod wedi datblygu strategaethau adfywio gyda'r awdurdodau lleol dan sylw yn ogystal â chydweithio â'r Gwasanaethau Cyflogi, ELWa a Gyrfa Cymru i helpu'r rheiny a effeithiwyd i ddod o hyd i gyfleoedd newydd. Cafodd dros chwe deg o gwmnïau yng nghadwyn cyflenwi Corus eu helpu i leihau effaith cau'r cwmni, a darparodd y WDA hefyd gefnogaeth fenter i unigolion oedd yn dymuno cychwyn eu busnesau eu hunain.

Cefnogodd y WDA fentrau yn Shotton a chymunedau cyfagos yn Sir y Fflint gydag arian cyfatebol o'i raglen adfywio trefol. Ynghyd â phecyn adfywio dur gwerth £1 miliwn a ddarparwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, mae hyn wedi darparu'r sylfaen ar gyfer strategaeth adfywio gynhwysfawr a gyflwynwyd mewn partneriaeth â Chyngor Sir y Fflint.

Mae'r Awdurdod hefyd wedi gweithio gyda Corus i ennill prosiect buddsoddiad symudol gwerth £4 miliwn yn Shotton Steelworks yn erbyn cystadleuaeth galed o Ogledd Ffrainc. Bydd creu Corus Living Solutions yn creu'r llinell weithgynhyrchu nwyddau fodern i wneud cartrefi wedi'u hadeiladu mewn ffatri ac i greu 200 o swyddi. Mae'r busnes wedi'i sefydlu i dargedu'r galw am dai fforddiadwy, yn enwedig mewn lletya cymdeithasol.

Ym Mhort Talbot, mae Canolfan Beirianneg newydd ar gyfer Gweithgynhyrchu a Deunyddiau ($ECM^2$) wedi'i sefydlu ar safle hen Ganolfan Dechnoleg Corus; tra bo gan Talbot Gateway, sef datblygiad swyddfeydd blaenllaw gwerth miliynau o bunnoedd ym Mharc Ynni Baglan, y potensial i greu 400 o swyddi.

Mae'r WDA hefyd yn cefnogi gwaith Ymddiriedolaeth Datblygiad Gorseinon Cyf., ac mae pedwar adeilad diwydiannol newydd wrthi'n cael eu hadeiladu ar Ystad Ddiwydiannol Garngoch. Disgwylir y bydd 50 o swyddi ychwanegol wedi'u creu ymhen dwy flynedd.

Galluogodd nawdd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i'r Awdurdod gefnogi rhaglen ddatblygu gwerth £14.47 miliwn i ddarparu mannau gwaith ym mhum sir Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen, a fydd yn helpu creu safleoedd ac adeiladau newydd ar gyfer dros 600 o swyddi. Cydlynodd y WDA y broses o lunio fframwaith isardal cyffredinol ar gyfer y pum sir; ac mae ystod o fesurau wrthi'n cael eu datblygu, gan gynnwys cefnogaeth ar gyfer mentrau economi cymdeithasol yn ardal Blaenau Gwent trwy fuddsoddiad benthyg gan Gyllid Cymru.

Mae mesurau i wella defnydd busnesau a'r gymuned yn gyffredinol o TGCh (Technolegau Gwybodaeth a Chyfathrebu) yn chwarae rôl amlwg yn y strategaeth gyffredinol, gyda chefnogaeth ariannol ar gyfer prosiectau ym mhob un o'r pum sir. Mae cefnogaeth arbennig TGCh wedi'i darparu ar gyfer Blaenau Gwent, sy'n wynebu anawsterau cymdeithasol ac economaidd penodol.

Ymhlith ystod o fentrau a ddatblygwyd ceir Prosiect E-Gymunedau Tredegar, y cyntaf mewn nifer o fentrau sy'n cael eu arwain gan y gymuned a fydd yn golygu y caiff y cyhoedd yn y sir fanteisio ar dechnoleg gwybodaeth newydd.

Cafodd cynlluniau uchelgeisiol ar gyfer adfywio Casnewydd hefyd eu datgelu yn ystod lansio Newport Unlimited, sef unig gwmni adfywio trefol Cymru.

*Prif Weinidog Cymru Rhodri Morgan gyda phrif swyddogion Newport Unlimited, Graham Moore a'r WDA, Graham Hawker*

First Minister Rhodri Morgan with the chief executives of Newport Unlimited, Graham Moore, and the WDA, Graham Hawker







## *RURAL RECOVERY PLAN*

The WDA has been accorded a key role in delivering aspects of the Welsh Assembly Government's Rural Recovery Plan, which is supported by a ring-fenced budget allocation.

The Agency uses this funding to complement long term support for rural development and community regeneration. One key priority is diversification of the rural economy, and the creation of a broad range of quality job opportunities.

During the last financial year, the Agency has used Rural Recovery Plan funding to promote a wide range of developments including support for craft units, support for agri-food business and assistance for a rural multi-media studios.

The Agency has also used Assembly funding to promote a Farm Woodland and Biomass project. Forest and Timber industries are critical to Wales, supporting thousands of jobs in rural communities. Timber is a sustainable primary resource with a growing market and increasing opportunities for high margin and added-value products. Current proposals include measures to ensure technology transfer and supply chain development.

## *THE CORUS CRISIS – STEEL REGENERATION PACKAGE*

The Agency has played a leading role in implementing the Welsh Assembly Government's £76 million Steel Regeneration Package which assists the areas most directly affected by the cutbacks announced by Corus in February 2001– Ebbw Vale, Gorseinon, Newport and Shotton. Nearly half this funding – £36 million – was directed through the WDA.

The Agency has developed regeneration strategies with the local authorities concerned as well as co-operating with the Employment Services, ELWa and Career Wales to help those affected to find new opportunities. Over sixty firms in the Corus supply chain were assisted to minimise the impact of the closures, and the WDA also provided enterprise support to individuals wishing to set up their own businesses.

The WDA supported initiatives in Shotton and neighbouring communities in Flintshire with match funding from its urban regeneration programme. Together with a £1 million steel regeneration package provided by the Welsh Assembly Government, this has provided the basis for a comprehensive regeneration strategy delivered in partnership with Flintshire County Council.

The Agency also worked with Corus to win a mobile £4 million investment project at Shotton Steelworks against tough competition from Northern France. The creation of Corus Living Solutions will create a new state of the art manufacturing line to make factory built homes and create 200 jobs. The business has been set up to target the demand for affordable housing, particularly in social housing.

In Port Talbot, a new Engineering Centre for Manufacturing and Materials ($ECM^2$) has been set up on the site of the old Corus Technology Centre; while Talbot Gateway, a multi-million pound flagship office development on Baglan Energy Park has the potential to create 400 jobs.

The WDA is also supporting the work of the Gorseinon Development Trust Ltd., and construction of four new industrial buildings on the Garngoch Industrial Estate is already under way, with an additional 50 jobs anticipated within two years.

Funding from the Welsh Assembly Government enabled the Agency to support a £14.47 million development programme to provide workspace in the five counties of Blaenau Gwent, Caerphilly, Monmouthshire, Newport and Torfaen, which will help create new sites and premises for more than 600 jobs. The WDA co-ordinated the drawing up of an overall sub-regional framework for the five counties; and a range of measures are being developed, including support for social economy enterprises in the Blaenau Gwent area through loan investment by Finance Wales.

Measures to improve the use of ICT (Information & Communication Technologies) by both businesses and the community as a whole play a prominent role within the overall strategy, with funding support provided for projects in each of the five counties. Special ICT support has been provided for Blaenau Gwent, which faces particular social and economic difficulties.

Among a range of initiatives developed is the Tredegar E-Communities Project, the first in a number of community led initiatives which will bring new information technology to the public in the county.

Ambitious plans for the regeneration of Newport were also unveiled at the launching of Newport Unlimited, Wales' only urban regeneration company.



*Rebecca Heyward-Jones ac Alison Price*

Rebecca Heyward-Jones and Alison Price





# gweithredu i gefnogi pobl

## *REBECCA HEYWARD-JONES AC ALISON PRICE*

Ysgogodd diswyddiad Rebecca Heyward-Jones ac Alison Price i lansio'u busnes eu hunain – yn seiliedig ar eu profiad yn y sectorau gwirfoddol a chymunedol – i ddarparu hyfforddiant arbenigol ar gyfer gweithwyr cymdeithasol a chymunedol awdurdod lleol.

*'Gwrando ar y gymuned leol'*

Troesant at Menter a Busnes am gyngor ar gychwyn busnes. Dyma un o'r sefydliadau partner a gefnogir gan brosiect Potentia y WDA, sy'n cynnig cymorth cyn cychwyn i bobl anabl, lleiafrifoedd ethnig, pobl ifanc, siaradwyr Cymraeg, rhieni sengl a phobl dros 50 oed.

Cafodd Rebecca ac Alison hyfforddiant cychwynnol a chyngor ariannol a busnes, gan gynnwys awgrymiadau am farchnata eu busnes newydd.

Ers ei lansio yn Wrecsam, mae menter newydd Rebecca ac Alison, Real Training Consultancy, wedi mynd o nerth i nerth, a chafodd ei chomisiynu'n ddiweddar i ddarparu hyfforddiant ledled y DU i awdurdodau lleol fel rhan o adfywio cymunedol.

## *DILWYN JENKINS*

Pentref bach iawn yng nghanol cefn gwlad Cymru fydd un o'r cymunedau cyntaf yng Nghymru i ddefnyddio ei ffynhonnell ei hun o ynni adnewyddadwy i gynhesu cartrefi, yr ysgol leol a chyfleusterau cymunedol.

Bu Dilwyn Jenkins, Cyfarwyddwr Asiantaeth Ynni Powys, yn ysbrydoledig yn y dasg o gysylltu pentrefwyr Llanwddyn, ger Llanfyllin, â system wresogi bio-màs a rennir a fydd yn gwrthbwyso gwres tanwydd ffosil yn y pentref. Gyda chymorth ariannol gan y WDA trwy'r Gronfa Adfer Cefn Gwlad, bydd boeler llosgi coed yn cael ei osod yn yr ysgol gynradd a chanolfan gymunedol leol. Bydd yn cynnig gwres cymharol rad i gynhesu cartrefi yn y gymdogaeth. Mae'r prosiect hefyd yn cael ei gefnogi gan Menter Coedwigaeth, Cyngor Sir Powys a Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Dechreuodd Dilwyn ei yrfa yn y Bristol Energy Centre cyn gweithio yn y Ganolfan Technoleg Amgen (CAT) ym Machynlleth. Ym 1994, ymunodd â Dulas Cyf., sef cwmni a ddeilliodd o CAT i arbenigo mewn ynni adnewyddadwy, ac sydd bellach yn arweinydd byd. Heddiw, ef yw cyfarwyddwr Asiantaeth Ynni Powys sydd, gyda chefnogaeth y WDA a phartneriaid eraill, yn hyrwyddo manteision ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd ynni i fusnesau a sefydliadau eraill ym Mhowys, gan gynnwys cefnogaeth ariannol ar gyfer cynlluniau o'r fath.

Yn ei amser hamdden, mae'n awdur ar gyfer y gyfres lyfrau Rough Guide; ef yw unig awdur cyhoeddiad Periw, a chyd-awdur y 'Rough Guide to South America' a'r 'Rough Guide to Brazil'.

## *RYAN A JANE PRINCE*

Pan glywodd Ryan a Jane Prince fod perchnogion Swyddfa Bost leol yng nghefn gwlad Sir Gaerfyrddin ar fin ymddeol, fe benderfynasant bod hyn yn argyfwng y gallent ei droi'n gyfle. Fe wnaethant sylweddoli bod yna botensial ar gyfer darparu gwasanaeth ffres ac arloesol i'r gymuned leol trwy ychwanegu cynhyrchion newydd a gwella'r adeilad.

Er nad oedd ganddynt unrhyw brofiad blaenorol mewn rheoli busnes, penderfynon nhw fentro a mynd i'w banc, a ddywedodd wrthynt bod angen paratoi cynllun busnes. Ymunodd y teulu Prince â Rhaglen Cychwyn Busnes y WDA ym mis Mai 2002, ac ymhen tri mis, roeddent wedi sicrhau trwyddedau angenrheidiol Swyddfa'r Post yn ogystal â benthyciad cymunedol gan Gyllid Cymru, a chefnogaeth ariannol gan Gyngor Sir Caerfyrddin, Menter Bro Myrddin a Chronfa Ddatblygu Swyddfeydd Post Gwledig.

Mae Bronwydd Stores bellach wedi rhagori ar ei drosiant arfaethedig – llwyddiant y cred Ryan a Jane Prince sy'n ganlyniad i wrando ar y gymuned leol a darparu'r cynnyrch, y gwasanaeth a'r darpariaethau y maent eu hangen.






Dilwyn Jenkins



# action to support people

## REBECCA HEYWARD-JONES AND ALISON PRICE

Redundancy prompted Rebecca Heyward-Jones and Alison Price to launch their own business - based on their experience in the voluntary and community sectors - to provide specialised training for local authority social and community workers.

*'Listening to the local community'*

They turned for business start-up advice to Menter a Busnes. This is one of the partner organisations supported by the WDA's Potentia project, which offers pre-start up assistance to disabled people, ethnic minorities, young people, Welsh speakers, lone parents and people aged over 50.

Rebecca and Alison obtained start-up training, financial and business advice, including suggestions on marketing their new business.

Since its launch in Wrexham, Rebecca and Alison's new venture, Real Training Consultancy, has gone from strength to strength and was recently commissioned to provide UK-wide training for local authorities as part of community regeneration.

## DILWYN JENKINS

A tiny village in the heart of rural Wales will be one of the first communities in Wales to tap into its own source of renewable energy to heat homes, the local school and community facilities.

Dilwyn Jenkins, Director of the Powys Energy Agency, has been inspirational in getting villagers in Llanwddyn, near Llanfyllin, hooked on to a shared biomass heating system which will offset fossil fuel heating in the village. With financial support from the WDA through the Rural Recovery Fund, a wood-fired boiler will be installed at the local primary school and community centre. It will offer relatively cheap heat to homes in the neighbourhood. The project is also being supported by Forest Enterprise, Powys County Council and the Welsh Assembly Government.

Dilwyn began his career at the Bristol Energy Centre before working at the Centre for Alternative Technology (CAT) at Machynlleth. In 1994 he joined Dulas Ltd., a company which span out of CAT to specialise in renewable energy and which is now a world-leader. Today, he is director of the Powys Energy Agency which, with the support of the WDA and other partners, promotes the benefits of renewable energy and energy efficiency to businesses and other organisations in Powys, including financial support for such schemes.

In his spare time he is an author for the Rough Guide series of books as sole author of the Peru edition and co-author on the Rough Guide to South America and Rough Guide to Brazil.

## RYAN AND JANE PRINCE

When Ryan and Jane Prince heard that the owners of a local Post Office in rural Carmarthenshire were about to retire, they decided that here was a crisis that could be turned into an opportunity. They recognised that there was potential for providing a fresh and innovative service to the local community by adding new lines and upgrading the premises.

Although they had no previous experience in managing a business, they decided to take the plunge and approached their bank, who advised them of the need to prepare a business plan. The Prince family signed up to the WDA's Business Start Programme in May 2002, and within three months they secured the necessary Post Office licenses as well as a community loan from Finance Wales, and funding support from Carmarthenshire County Council, Menter Bro Myrddin and the Rural Post Office Development Fund.

Bronwydd Stores has now exceeded its projected turnover – a success that Ryan and Jane Prince attribute to listening to the local community, and providing the products, the service and the amenities required.



*Abaty Singleton (chwith) ar gampws Prifysgol Cymru Abertawe – canolbwynt Prosiect Cyn Fyfyrwyr Abertawe*

Singleton Abbey (left) on the campus of the University of Wales Swansea – focus for the Swansea Alumni project





## PROSIECT CYN FYFYRWYR ABERTAWE

Cefnogodd yr Awdurdod ymdrech Prifysgol Cymru Abertawe i gryfhau ei gysylltiadau â'i chyn fyfyrwyr ledled y byd trwy brosiect Cyn Fyfyrwyr Abertawe.

Mae hyn yn darparu ffynhonnell ariannol hanfodol ar gyfer y Brifysgol tra bo'r WDA yn awyddus i gryfhau ei rwymau ag addysg uwch a chlustnodi ffynonellau newydd o fuddsoddiad o'r tu allan dan arweiniad cyn fyfyrwyr sydd ar wasgar.

Bu'r Awdurdod yn rhannol gyfrifol am ariannu swydd newydd yn y Brifysgol i lansio'r fenter. Mae aduniadau llwyddiannus iawn o gyn fyfyrwyr Abertawe eisoes wedi'u cynnal yn Llundain ac yng Nghalifornia.

## JAN CLIFF

Mae Jan Cliff yn un o chwech o gyfarwyddwyr menter newydd Sundance Renewables – y cwmni cydweithredol cyntaf i gael ei gefnogi gan Gronfa Ddeillio Cyllid Cymru. Roedd gan Jan dros 20 mlynedd o brofiad ym maes ynni adnewyddadwy, a bu'n darlithio ym Mhrifysgol Cymru Abertawe, lle bu hefyd yn ymchwilio i danwyddau bio-diesel.

Er gwaethaf cael ei gwrthod gan y banc am gefnogaeth ar gyfer y prosiect, roedd Jan Cliff a'i chydweithwyr yn benderfynol o wireddu eu breuddwyd – cwmni cydweithredol gweithwyr yn arbenigo mewn cyflenwi a gosod systemau ynni adnewyddadwy, yn amrywio o brosiectau domestig graddfa fach i brosiectau masnachol a chymunedol mwy.

Troesant at Gyllid Cymru a sicrhau benthyciad o £25,000 heb log gan Raglen Ddeillio Cymru i brynu offer a chyfarpar angenrheidiol, gan gynnwys uned osod â'r holl gyfarpar. Mae Sundance Renewables bellach yn gweithredu yng Nghapel Hendre, ger Rhydaman.

Mae Jan yn frwdfrydig ynglŷn â nodau'r cwmni i gynyddu gallu systemau ynni adnewyddadwy yng Nghymru: "nid ymwneud â chynnyrch neu systemau yn unig y mae Sundance; byddwn hefyd yn gosod yr holl nodweddion hanfodol sy'n arwain at osodiad llwyddiannus, gan gynnwys hyfforddiant. Mae'r ymagwedd gyfannol hon yn helpu sicrhau economi cynaliadwy yng Nghymru, lle mae lles yr amgylchedd a chymunedau sefydledig yn cael eu hystyried."

## RIDHI MAHANDRU

Mae Ridhi wedi bod yn byw yng Ngorllewin Cymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf ar ôl symud o India. Roedd yn gweithio yn adran gwasanaethau cwsmeriaid siop adwerthu ar y stryd fawr, ond gadawodd chwe mis yn ddiweddarach pan daeth yn feichiog.

Ar ymweliad ag India, gwelodd fod ei mam wedi agor stondin yn y farchnad leol yn gwerthu papur, cardiau, cysgodion lampau, llyfrau nodiadau a dyddiaduron hyfryd o'r India wedi'u gwneud â llaw. Daeth Ridhi â rhai o'r cynhyrchion gartref i'w dangos i fasnachwyr y farchnad yng Nghaerfyrddin. Roedd yr adborth yn gadarnhaol iawn, gyda phawb yn dweud pa mor anarferol yr oeddent, ac y byddai ganddynt ddiddordeb cael stoc ohonynt.

Tra roedd yn chwilio ar y Rhyngrwyd am gyngor ynglŷn â chychwyn busnes, darganfu Ridhi y Rhaglen Cefnogi Busnes Ethnig oedd yn cynnig cymorth gyda chefnogaeth hanfodol cyn cychwyn. Cyfeiriodd y Rhaglen hi at y Grŵp Ymsefydlu ble dysgodd am dreth mewnforio ac allforio, tollau, TAW a phrynu. Cyfeiriwyd hi hefyd at y Ffatri Fenter a roddodd fenthyciad o £1,000 iddi a grant o £250 i sefydlu gwefan. Mae hi bellach wedi'i hargyhoeddi y bydd ei busnes – The Creations – yn llwyddiant.

Y Rhaglen Cefnogi Busnes Ethnig yw un o'r sefydliadau a ariennir gan fenter Potentia a reolir gan y WDA. Mae partneriaid Potentia yn helpu pontio'r bwlch rhwng y brif ffrwd ac unigolion o grwpiau sydd dan anfantais yn ystod cyfnodau cynnar datblygiad busnes newydd.



Ridhi Mahandru

## RIDHI MAHANDRU

Ridhi has been living in West Wales for the past few years after moving from India. She worked in the customer services department of a high street retailer but left six months later when she became pregnant.

On a visit to India, she found that her mother had set up a stall in the local market selling beautiful Indian handcrafted paper, cards, lampshades, notebooks and diaries. Ridhi brought a few of the paper products home to show to market traders in Carmarthen. The feedback was really positive, with everyone saying how unusual they were and how they would be interested in some stock.

While browsing the Internet for advice on starting a business, Ridhi discovered the Ethnic Business Support Programme who helped with crucial pre-start up support. The Programme referred her to the Foothold Group where she learned about import and export tax, customs, VAT and buying. She was also referred to the Ffatri Fenter who awarded her a loan of £1,000 and a grant of £250 to set up a website. Now she is convinced that her business – The Creations – will prove a success.

The Ethnic Business Support Programme is one of the organisations funded by the WDA-managed Potentia initiative. Potentia partners help bridge the gap between the mainstream and individuals from a number of disadvantaged groups in the early stages of new business development.

## JAN CLIFF

Jan Cliff is one of the six directors of a new venture Sundance Renewables – the first workers co-operative to be backed by Finance Wales' Spinout Fund. Jan had over 20 years' experience in renewable energy and had lectured at University of Wales Swansea, where she also carried out research into biodiesel fuels.

Despite a refusal by the bank to back the project, Jan Cliff and her colleagues were determined to realise their dream – a workers' co-operative specialising in the supply and installation of renewable energy systems, ranging from small-scale domestic to larger commercial and community projects.

They turned to Finance Wales and secured an interest-free £25,000 loan from the Wales Spinout Programme to fund the purchase of essential tools and equipment, including a fully equipped installation unit. Sundance Renewables is now in business at Capel Hendre, near Ammanford

Jan is enthusiastic about the company's aims to increase the capacity of renewable energy systems in Wales: "Sundance is not just about products or systems; we will put in place all the essential features that create a successful installation, including training. This holistic approach helps to achieve a Welsh economy that is sustainable and where the interests of the environment and established communities are taken into account."

## SWANSEA ALUMNI PROJECT

The Agency provided support for University of Wales Swansea's drive to consolidate its links with former students world-wide through the Swansea Alumni project.

For the University, this provides a potentially vital source of funding while the WDA is keen to strengthen its ties with higher education and identify new sources of inward investment led by expatriate former students.

The Agency part-funded a new post at the University to launch the initiative. Already highly successful gatherings of Swansea alumni have taken place in London and in California.



*Whizzard Helicopters, Y Trallwng*

Whizzard Helicopters, Welshpool



## MENTER DYFFRYN AMAN

Mae benthyciad o £50,000 ar gyfer menter gymunedol sy'n anelu at wella adnoddau hen bentrefi glo, yn un o nifer o fentrau cymdeithasol i gael cefnogaeth Cyllid Cymru.

Cafodd Menter Dyffryn Aman ei lansio yn hwyr yn yr wythdegau gan grŵp o ferched a oedd yn benderfynol o wella ansawdd bywyd ym mhentref bach Tairgwaith, gyda'r nod o helpu pentrefwyr mewn ardal o amddifadedd a lefel uchel o ddiwethdra, i ddysgu medrau newydd a datblygu syniadau newydd i adfywio eu cymuned.

Heddiw, mae'n darparu hyfforddiant a chyrsiau addysgol, gweithgareddau hamdden a chelf a gofal plant mewn ardal sy'n cwmpasu 20 milltir yn Nyffryn Aman a Chwm Tawe Uchaf. Mae'n cyflogi 35 o bobl leol gyda chefnogaeth dros 40 o wirfoddolwyr. Bydd Benthyciad Cymunedol a gyflwynwyd gan Gyllid Cymru nawr yn helpu Menter Dyffryn Aman ehangu ac adnewyddu ei Phencadlys yn hen swyddfeydd y Bwrdd Glo Cenedlaethol yn Nhairgwaith.

"Mae cefnogaeth Cyllid Cymru wedi'i dyrannu'n benodol ar gyfer gwaith gwella hanfodol i'n systemau TG a theleffon ac ar gyfer rhaglen ddatblygu medrau ar gyfer ein staff," eglurodd Cheryl James, cyfarwyddwr Menter Dyffryn Aman.

Gall benthyciadau cymunedol Cyllid Cymru amrywio rhwng £5,000 a £50,000 ac maent ar gael i brosiectau a chynlluniau a all ddangos eu bod o fudd i'w cymunedau ac yn ymarferol yn ariannol. Bydd cyfanswm y buddsoddiad arfaethedig ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf tua £1 miliwn.



## ALEX NEWSTEAD A KEVIN EARLAND

Mae datblygiad meddalwedd efelychu hedfan arloesol sy'n galluogi pobl i ddylunio, adeiladu a phrawf-hedfan ar PC yn helpu dau gyn fyfyriwr peirianneg meddalwedd o Brifysgol Cymru Aberystwyth, i gychwyn eu busnes eu hunain, sef RealityCraft Cyfyngedig.

Cafodd Alex Newstead a Kevin Earland gefnogaeth gan y rhaglen Graddio i Fenter sy'n cael ei hariannu'n gyfan gwbl gan y WDA. Mae'r rhaglen yn darparu cefnogaeth a chyngor di-dâl i fyfyrwyr yn rhan fwyaf y colegau a'r prifysgolion Addysg Bellach ledled Cymru.

Mae'n darparu cyflwyniad i weithdai busnes, mentora busnes unigol, ysgol haf ar gyfer cychwyn mewn busnes, a mentora parhaus am hyd at dair blynedd.

## JERRY LANCHBURY

Dechreuodd Jerry Lanchbury fasnachu fel Whizzard Helicopters ym mis Ebrill 2002 ym Maes Awyr Canolbarth Cymru, Y Trallwng. Mae Whizzard, sydd ar hyn o bryd yn cyflogi dau aelod o staff amser llawn, yn cynnig teithiau siarter, hamdden a hyfforddiant i fusnesau ac unigolion. Dechreuodd y cwmni ei weithrediadau hyfforddi ym mis Tachwedd 2002 ar ôl cael cymeradwyaeth gan yr Awdurdod Hedfan Sifil.

Ym mis Chwefror 2003, cafodd Whizzard Helicopters Wobr TG gan y WDA i'w helpu i brynu cyfrifiadur i gynorthwyo'i weithrediadau. Trefnwyd sesiwn gynghori TG hefyd trwy Wasanaeth Gwybodaeth a Chynghori TG yr Awdurdod. Nod y cwmni yw ehangu ei weithrediadau wrth i'r busnes ddatblygu, ac mae'n cynnal ei berthynas â'r Awdurdod wrth i'r cynlluniau hyn ddatblygu.

## XKS, LLANELWY

Cwmni Gwasanaethau a Datblygiad Meddalwedd yw XKS sydd wedi'i leoli yn Llanelwy, lle mae wedi bod yn gweithredu ers 1998. Yn dilyn adolygiad, ceisiodd y cwmni ddatblygu'r busnes yn strategol. Nododd rhaglen Know-How Wales y WDA ddau faes lle gallai'r cwmni elwa ar arbenigedd academaidd, cyfrifiadura uwch a marchnata.

Mae prosiect Cynllun Cwmni Dysgu bellach ar fin cael ei gwblhau gydag Ysgol Fusnes a Datblygiad Rhanbarthol Prifysgol Cymru Bangor i hyrwyddo'r cwmni i'w gwsmeriaid presennol ac i arallgyfeirio i feysydd busnes cysylltiedig. Mae ail raglen TCS hefyd wedi'i chymeradwyo ar gyfer rhaglenni java mewn partneriaeth â'r Ysgol Gwybodeg.

Nod y prosiect yw hyrwyddo'r cwmni i'w gwsmeriaid presennol ac arallgyfeirio ei weithrediadau i feysydd busnes cysylltiedig.

*Menter Dyffryn Aman, un o fentrau cymunedol Cymru*

Community venture Amman Valley Enterprise







## AMMAN VALLEY ENTERPRISE

A £50,000 loan to a community venture which aims to improve the amenities of former mining villages is one of a number of social enterprises to be backed by Finance Wales.

Amman Valley Enterprise was launched in the late eighties by a group of women determined to improve the quality of life in the small village of Tairgwaith, with the aim of helping villagers in an area of deprivation and high unemployment learn new skills and develop new ideas to regenerate their community.

Today it provides training and educational courses, leisure and arts activities and childcare over a 20 mile radius within the Amman and Upper Swansea Valleys. It employs 35 local people backed by more than 40 volunteers. Now a Community Loan delivered by Finance Wales will help Amman Valley Enterprise extend and refurbish their Headquarters in former National Coal Board offices at Tairgwaith.

"Specifically Finance Wales's support has been allocated to the vital upgrading of our IT and telephone systems and on a skills development programme for our staff," explained Amman valley Enterprise director Cheryl James.

Finance Wales's community loans can range from £5,000 to £50,000 and are available to projects and schemes that can demonstrate that they benefit their communities and are financially viable. Projected investment for the next financial year will total around £1 million.

## ALEX NEWSTEAD AND KEVIN EARLAND

The development of innovative flight simulation software which enables people to design, build and make test flights of aircraft on a PC is helping two former software engineering students from the University of Wales, Aberystwyth to take off with their own business, RealityCraft Limited.

Alex Newstead and Kevin Earland received support from the Graduating to Enterprise programme which is fully funded by the WDA. The programme provides free support and advice to students in most Further Education colleges and universities throughout Wales.

It provides an introduction to business workshops, one-to-one business mentoring, a summer school for starting-up in business, and continued mentoring for up to three years.

## JERRY LANCHBURY

Jerry Lanchbury started trading as Whizzard Helicopters in April 2002 at the Mid Wales Airport, Welshpool. Currently employing two full-time personnel, Whizzard runs charter, leisure and training flights for businesses and individuals. The company began its training operations in November 2002 after receiving Civil Aviation Authority approval.

In February 2003 Whizzard Helicopters received an IT Award from the WDA for assistance in purchasing a computer to aid its operations. An IT advisory session was also arranged through the Agency's IT Information and Advisory Service. The company aims to expand its operations as business develops and is maintaining its relationship with the Agency as these plans progress.

## XKS, ST ASAPH

XKS is a Software Services & Development Company based in St Asaph, where it has operated since 1998. Following a review, the company sought to develop the business strategically. The WDA's Know-How Wales programme identified two areas in which the company could benefit from academic expertise, advanced computing and marketing.

A successful Teaching Company Scheme project is now close to completion with the School for Business and Regional Development at the University of Wales Bangor to promote the company to its existing customers and to diversify into related business areas. A second TCS programme for java programming has also been approved in partnership with the School of Informatics.

The project aims to promote the company to its existing customers and diversify its operations into related business areas.





# datganiad y prif weithredwr

Mae'r Adroddiad Blynyddol yn rhestru'r nifer o weithgareddau gwahanol iawn a wnaeth Awdurdod Datblygu Cymru yn ystod 2002-2003, ac yn y datganiad hwn edrychaf ymlaen at heriau'r dyfodol.

Ein hamcan yw bodloni anghenion busnesau yn unol â nodau uchelgeisiol a amlinellir yn y strategaeth ddatblygiad economaidd genedlaethol, A Winning Wales. Y WDA sy'n gyfrifol am weithredu gweledigaeth y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer Cymru – economi Gymreig lewyrchus sy'n rymus, yn gynhwysol ac yn gynaliadwy. Rydym yn gweithredu fel prif fraich datblygiad economaidd Llywodraeth Cynulliad Cymru – rydym yn gweithredu strategaethau'r Llywodraeth ac yn ariannu nifer o'n gweithgareddau gyda chyllid a ddarperir gan y Cynulliad.

Mae'r WDA yn ceisio hyrwyddo'r cyfraniad a wneir gan fusnesau, pobl a chymunedau i sicrhau llwyddiant economaidd. Mae'r WDA yn canolbwyntio ar fodloni anghenion busnes, ac yn gweithio gyda phartneriaid yn y sectorau cyhoeddus a phreifat i wella mewnbwn pobl a chymunedau. Mae'n cynlluniau gweithredol wedi'u llunio mewn ymgynghoriad ag ystod eang o bartneriaid ar draws y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol; a byddwn hefyd yn cymryd mwy o ran mewn cefnogi rhaglenni eraill i wneud Cymru'n wlad sy'n dysgu.

Mae targedau allweddol ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod, megis cychwyniadau busnes newydd, swyddi a grewyd a swyddi a sicrhawyd, yn cynrychioli un o'r heriau caletaf a osodwyd erioed ar gyfer y WDA o ran gwella'n perfformiad o un flwyddyn i'r llall. Maent yn adlewyrchu'r ffaith fod Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn ystod y tair blynedd diwethaf, wedi rhoi rolau a chyfrifoldebau pwysig newydd i'r WDA ynghyd ag adnoddau a staff ychwanegol i'w cyflwyno.

*'Edrych ymlaen at heriau'r dyfodol'*

Byddwn yn ychwanegu at yr adnoddau hyn a'r cyfle a gyflwynwyd gan Raglenni Ewropeaidd i gyflymu datblygiad i hyrwyddo ffyniant. Ein nod yw darparu mwy o gyfleoedd gwaith, nid yn unig yn y sector gwybodaeth economaidd ond hefyd ar draws yr economi yn gyfan gwbl. Bydd y WDA yn gweithio hefyd tuag at newid cam yng nghyfradd creu busnesau newydd a thwf mentrau presennol.

Mae'r WDA yn gyfrifol am nifer o feysydd a nodwyd yng nghynllun gweithredu Arloesedd Cymru Llywodraeth Cynulliad Cymru. Rydym wedi gwella cefnogaeth ar gyfer sectorau a chlystyrau â thwf uchel, ac mae yna nifer cynyddol o fentrau wedi'u cynllunio i helpu busnesau o bob maint i ddelio â'r her sy'n gysylltiedig â newid. Er enghraifft, mae rhwydwaith Technium o ganolfannau deori busnes yn cael ei ddatblygu ledled Cymru i sicrhau'r amgylchedd gorau posibl i gwmnïau ifanc a chwmnïau deillio gyflawni potensial eu twf, tra bydd hefyd yn darparu sylfaen ddeniadol ar gyfer prosiectau R&D dibynnol rhyngwladol yn nifer o'r Canolfannau Technoleg sydd wedi'u cydleoli.





*Graham Hawker*

*Prif Weithredwr*

Chief Executive

# chief executive's statement

The Annual Report details the many very different activities pursued by the Welsh Development Agency during 2002-2003, and in this statement I look ahead to future challenges.

Our objective is to meet business needs in line with the ambitious goals set out in the national economic development strategy A Winning Wales. The WDA is charged with implementing the National Assembly's vision for Wales – a prosperous Welsh economy that is dynamic, inclusive and sustainable. We act as the principal economic development arm of the Welsh Assembly Government – implementing the Government's strategies and funding many of our activities with finance provided by the Assembly.

The WDA seeks to maximise the contribution made by businesses, people and communities to economic success. The WDA focuses on meeting the needs of business, and works with our partners in both the public and private sectors to enhance the input of people and communities. Our operational plans are drawn up in consultation with a wide range of partners across the public, private and voluntary sectors; and we will also be increasingly involved in supporting other programmes to make Wales a learning country.

Key targets for the coming year, such as new business start-ups, jobs created and jobs safeguarded, represent one of the toughest challenges ever set for the WDA in terms of raising our game from one year to the next. They reflect the fact that, over the past three years, the Welsh Assembly Government has given the WDA important new roles and responsibilities along with additional resources and staff to deliver them.

*'Looking ahead to future challenges'*

We will build on these extra resources and the opportunity presented by European Programmes to accelerate the pace of development to promote prosperity. We aim to provide more employment opportunities not only in the knowledge economy sector but also across the economy as a whole. The WDA will also work for a step change in the rate of new business creation and the growth of existing enterprises.

The WDA is responsible for a number of areas identified in the Welsh Assembly Government's Wales for Innovation action plan. We have improved support for high growth sectors and clusters, and there are a growing number of initiatives designed to help businesses of all sizes get to grips with the challenge of change. For example, the Technium network of business incubation centres is being developed throughout Wales to ensure the optimum environment for young companies and spin-outs to achieve their growth potential, while also providing an attractive base for international satellite R&D projects in many of the co-located Technology Centres.




*'Datblygu canllawiau manwl ar gyfer datblygiad cynaliadwy'*

Byddwn yn parhau i ddatblygu diwylliant cryf sy'n cael ei gynnal gan y farchnad, sy'n cydnabod blaenoriaeth y cwsmer trwy wasanaethau cwsmer ardderchog. Caiff y broses hon ei chynorthwyo gan lansio Porth Busnes a chan symudiadau tuag at wasanaeth cefnogi busnes symlach sy'n cyd-fynd â'r ymgyrch i gael diwylliant mwy entrepreneuraidd.

Rhaid i'r gefnogaeth i'n cwsmeriaid fod yn broses ddwy ffordd. Mae arnom angen dealltwriaeth fanwl o anghenion busnes sy'n prysur newid; ac mae angen i ni hefyd gyfathrebu'n effeithiol â busnesau presennol a darpar entrepreneuriaid. Mae llwyddiant yr Awdurdod yn dibynnu ar effeithiolrwydd ei bersonèl; ac fel sefydliad y mae pobl yn ganolbwynt iddo, byddwn yn cryfhau ein buddsoddiad ym medrau a hyfforddiant ein staff.

I ddeall anghenion busnes, mae'n rhaid gwneud mwy o lawer na dim ond cynnig ystod o gynhyrchion neu gefnogaeth 'y gellir eu prynu'. I ychwanegu gwerth yn llawn, rhaid i ni gyflwyno atebion arloesol ac amserol sy'n addas ar gyfer sefyllfaoedd unigol. Gan fod adnoddau bob amser wedi'u cyfyngu, rydym yn gweithio tuag at sicrhau ein bod yn targedu gwasanaethau cefnogi busnesau yn well; ac i gyflawni'r amcan hwn, mae'r Awdurdod ar hyn o bryd wrthi'n adeiladu cronfa ddata gynhwysfawr, yn cynnal dadansoddiad sector marchnad ac yn gweithio'n agos â phartneriaid, gan gynnwys y Fforymau Diwydiannol amrywiol yr ydym yn eu cefnogi.

Mae dyrannu'r farchnad a chyfathrebu â chwsmeriaid yn effeithiol yn helpu'r ddealltwriaeth honno, ac yn galluogi i gynnyrch a gwasanaethau'r WDA gael eu datblygu a'u gwella wrth ymateb i adborth. Cafodd y broses hanfodol honno o ryngweithio dwy ffordd ei chynorthwyo yn ystod 2003 gan lansio Busnes, sef cylchgrawn cwsmeriaid y WDA ar gyfer busnesau.

Rydym eisoes yn datblygu marchnata drwy gynnig wedi'i dargedu i ddenu cwmnïau, yng Nghymru a thu hwnt, i fanteisio ar y cyfleoedd gwych sydd ar gael yn ein gwlad. Bydd y broses hon yn cael ei gwella gan ddarpariaeth y safleoedd cyflogi strategol ym mhob un o ranbarthau Cymru.

Mae'r WDA yn parhau i ddatblygu canllawiau manwl ar gyfer datblygiad cynaliadwy, yn dilyn yr ymrwymiad a wnaethom yn ein dogfen fframwaith "Dysgu Gweithio'n Wahanol". Ein nod yw sicrhau bod egwyddorion datblygiad cynaliadwy yn cael eu hintegreiddio'n llwyr ym mhopeth a wnawn. Fe wnaethom ymateb yn gadarnhaol i ymgynghoriad Llywodraeth Cynulliad Cymru ar ei Chynllun Gweithredu Busnes a'r Amgylchedd, a bydd ein cyfraniad i'r broses hon yn darparu'r cyd-destun ar gyfer cyflwyno canlyniadau cynaliadwy yn ein gweithgareddau cefnogi busnes. Byddwn hefyd yn gweithio gyda'r Awdurdodau Unedol a phartneriaid eraill i hyrwyddo cyflawniad dylunio cynaliadwy o ansawdd uchel yn ein holl brosiectau datblygu.

Pan fyddwn yn gweithio'n effeithiol fel tîm yng Nghymru, ni ellir ein trechu. Mae'r sectorau preifat a chyhoeddus gyda'i gilydd eisoes wedi sicrhau trawsnewid mawr yn economi Cymru. Rwyf yn ddiolchgar i staff y WDA am eu cyfraniad at yr ymdrech hon. Rydym yn benderfynol o wella'n perfformiad i lwyddo i fodloni heriau newydd yr unfed ganrif ar hugain.



**Graham Hawker CBE DL**
*Prif Weithredwr*



*'Developing detailed guidelines for sustainable development'*

We shall continue to develop a strong market led culture which recognises the primacy of the customer through excellent customer services. This process is assisted by the launch of the Business Gateway and by moves towards a streamlined business support service that complements the drive to a more entrepreneurial culture.

Support for our customers has to be a two-way process. We need a detailed understanding of fast-changing business needs; and we also need to communicate effectively with existing businesses and potential entrepreneurs. The Agency's success depends on the effectiveness of its personnel; and as a people-centred organisation, we will strengthen our investment in the skills and training of our staff.

Understanding business needs requires much must more than simply offering a range of products or 'off the shelf' support. To add value fully, we must deliver innovative and timely solutions tailored to individual situations. Since resources are always limited, we are working to ensure better targeting of business support services; and to fulfil this objective, the Agency is currently building a comprehensive database, carrying out market sector analysis and working closely with partners, including the various Industry Fora that we support.

Effective segmentation of the market and communication with customers helps that understanding, and enables the WDA's products and services to be developed and refined in response to feedback. That vital process of two-way interaction has been assisted by the launch during 2003 of Busnes, the WDA's customer magazine for businesses.

We are already developing targeted proposition marketing to attract firms, both in Wales and outside Wales, to take up the great opportunities available in our country. This process will be enhanced by the provision of strategic employment sites in each region of Wales.

The WDA continues to develop detailed guidelines for sustainable development, following the commitment made in our framework document "Learning to Work Differently". Our aim is to ensure that the principles of sustainable development are fully integrated into all we do. We responded positively to the Welsh Assembly Government's consultation on its Business and Environment Action Plan, and our contribution to this process will provide the context for the delivery of sustainable outcomes in our business support activity. We will also work with the Unitary Authorities and other partners to promote the achievement of high quality sustainable design in all our development projects.

When we work effectively as a team in Wales, we are unbeatable. Together the private and public sectors have already achieved a major transformation in the economy of Wales. I am grateful to the staff of the WDA for their contribution to this endeavour. We are determined to raise our performance to succeed in meeting the new challenges of the 21st century.



**Graham Hawker CBE DL**
*Chief Executive*

*Wynebu'r Her yng*
# ngogledd cymru

*Mae Cyfadran Gogledd Cymru yn gwasanaethu'r awdurdodau lleol hyn - Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd (ac eithrio Meirionnydd), Wrecsam ac Ynys Môn - ac oddeutu 22% o boblogaeth Cymru.*

*Meeting the Challenge in*
# north wales

*The North Wales Division serves the local authorities of Conwy, Denbighshire, Flintshire, Gwynedd (excluding Meirionnydd), Wrexham and Ynys Môn - and some 22% of the population of Wales.*



## Safleoedd Gweithgynhyrchu / Busnes Cyffredinol

*Mae'r rhan fwyaf o'r safleoedd a ddangosir ar y map gyferbyn yn darparu adeiladau ar gyfer defnydd cymysg o ran y sector diwydiant a maint y cwmni er bod enghraifft o safle strategol sy'n cael ei ymgyfuno â sector diwydiant penodol.*

**Parc Busnes Llanelwy.** Gan weithio mewn partneriaeth â'r diwydiant, mae'r Awdurdod wedi dynodi ardal o'r Parc er mwyn ei datblygu yn y sector Optoelectroneg. Bydd hyn yn dechrau gyda'r cyfleuster OpTIC a fydd yn darparu mannau deor hyblyg i fusnesau newydd sy'n cychwyn arni a sgîl-gynhyrchu sy'n deillio o ddiwydiant a'r byd academaidd, canolfan dechnoleg a mynediad i gefnogaeth un pwrpas i fusnesau.

## Ardaloedd Sector Busnes Allweddol

*Mae'r Awdurdod yn gweithio gyda nifer o sectorau sy'n strategol bwysig, er mwyn sicrhau bod cwmnïau cynhenid yn aros ac yn tyfu yn yr ardal a bod pobl yn gweld bod y rhanbarth yn lleoliad deniadol i gael buddsoddiad o'r tu allan i gwmnïau yn y sector. Yn eu plith mae:*

**Gweithgynhyrchu Uwch** sydd wedi'i leoli yn y Gogledd-ddwyrain yn bennaf, a'r uchafbwynt yw gweithgynhyrchu'r adenydd ar gyfer awyren yr A380 yn Airbus ym Mrychdwn.

Mae **Technolegau Meddalwedd** yn sector sy'n tyfu yn y rhanbarth a lleolir llawer o gwmnïau ym Mharc Menai, Bangor.

Cydnabyddir bod **Amlgyfrwng** yn sector sydd â'r potensial i dyfu yn y rhanbarth a lleolir llawer o'r gweithgynhyrchu yn ardal Caernarfon.

## Ardaloedd Buddsoddiad Trefol Allweddol

*Rydym wedi cytuno gyda'n partneriaid bod yr ardaloedd hyn yn haeddu ffocws strategol er mwyn sicrhau adfywiad sy'n cyfuno amcanion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol.*

Ymysg y cyfleoedd mae amlhau i'r eithaf y potensial sydd i **Gaergybi** fel porthladd a'i fanteision ar gyfer canol y dref a'r gymuned ehangach, manteisio ar **Fangor** fel 'dinas dysg', a chysylltu datblygiad canolfan forol gyda'r gorau yn y byd, gyda datblygiad tref **Pwllheli.**

## Ardaloedd Gwledig Allweddol

*Menter y Gymuned Ewropeaidd yw LEADER+ er mwyn rhagbrofi rhaglenni datblygu cefn gwlad arloesol mewn cymunedau lleol. Mae pedwar o'r saith grŵp gweithredu yng Ngogledd Cymru. Mae'r Awdurdod yn cynorthwyo gyda rheoli'r grwpiau er mwyn hwyluso eu cyfraniad at y rhaglen adfywio cefn gwlad gyflawn.*

## Cefnogi Cymunedau

*Mudiad Menter y Trefi a'r Pentrefi Bach yw'r prif gyfrwng yng Ngogledd Cymru sy'n galluogi partneriaid y sector cyhoeddus i gyflwyno rhaglen integredig o gefnogaeth i fusnes, gwelliannau ffisegol ac adfywio cymunedau. Bu'n fodd i ymateb yn gyflym i argyfwng Clwy'r Traed a'r Genau yn ystod 2001.*

## Ardaloedd Twf mewn Twristiaeth

*Mae Bwrdd Croeso Cymru wedi dynodi nifer o ardaloedd sydd â'r potensial i wella'r statws presennol sydd ganddynt fel cyrchfannau twristiaeth allweddol, a gyda'r nod o arddangos arfer gorau:*

Bernir bod arwyddocâd cenedlaethol yn perthyn i Landudno/Conwy a chefnogir hynny yn rhanbarthol gan Gaernarfon, Betws-y-Coed ac ardal Wrecsam/Dyffryn Afon Dyfrdwy.



## General Manufacturing / Business Sites

*Most of the sites identified on the map opposite provide premises for mixed use in terms of industry sector and size of company although there is an example where part of a strategic site is being aligned with particular industry sector.*

**St Asaph Business Park**. Working in partnership with the industry, the Agency has designated an area of the Park for development in the Optoelectronics sector. This will begin with the OpTIC facility which will provide flexible incubator space for new start ups and spin outs coming from both industry and academia, a technology centre and access to dedicated business support.

## Key Business Sector Areas

*The Agency is working with a number of strategically important sectors to ensure that indigenous companies remain and grow in the area and that the region is seen as an attractive location for inward investment for companies in the sector. These include:*

**Advanced Manufacturing** is located predominantly in the North East with the jewel in the crown being the manufacture of the wings for the A380 at Airbus in Broughton.

**Software Technologies** is a growing sector in the region with many of the companies based at Parc Menai in Bangor.

**Multi Media** is recognised as a potential growth sector in the region with much of the activity located in the Caernarfon region.

## Key Urban Investment Areas

*These areas have been agreed with our partners as worthy of strategic focus to secure regeneration which integrates economic, social and environmental objectives.*

Opportunities include optimising the port potential of **Holyhead** and its benefits for the town centre and wider community, capitalising on **Bangor** as 'the learning city', and linking the development of a world class marine centre with the development of the town of **Pwllheli.**

## Key Rural Areas

*LEADER+ is a European Community initiative to pilot innovative rural development programmes at the local community level. Four of the seven action groups are in North Wales. The Agency is assisting with the management of the groups to facilitate their contribution to the overall rural regeneration programme.*

## Community Support

*The Small Towns and Villages Enterprise Initiative (STVEI) is the main vehicle in North Wales for public sector partners to deliver an integrated programme of business support, physical improvements and community regeneration. It has enabled a rapid response to be made to the foot and mouth crisis during 2001.*

## Tourism Growth Areas

*Wales Tourist Board has designated a number of areas with potential to enhance their existing status as key tourism destinations and with the aim of demonstrating best practice:*

Llandudno/Conwy is rated of national significance, supported at the regional level by Caernarfon, Betws y Coed and the Wrexham/Dee Valley area.

*Wynebu'r Her yng*
# nghanolbarth cymru

*Mae Cyfadran Awdurdod Datblygu Cymru yng Nghanolbarth Cymru yn gwasanaethu Ceredigion, Powys ac ardal Meirionnydd yng Ngwynedd, ardal wledig gan mwyaf â threfi farchnad wedi'u gwasgaru yma a thraw. Mae'r ardal yn cynnwys oddeutu 40% o arwynebedd tir Cymru ac mae ganddi boblogaeth o oddeutu 230,000 - tuag wyth y cant o boblogaeth Cymru.*

*Meeting the Challenge in*
# mid wales

*The WDA's Mid Wales Division serves Ceredigion, Powys and the Meirionnydd district of Gwynedd, a predominantly rural area interspersed with market towns. The region comprises some 40% of the land area of Wales and has a population of about 230,000 - around eight percent of the Welsh population.*





## Safleoedd Gweithgynhyrchu / Busnes Cyffredinol

*Un safle strategol sydd yng Nghanolbarth Cymru (Parc Technoleg Aberporth), ac mae 15 o safleoedd allweddol wedi'u lleoli ar hyd a lled y rhanbarth yn cynnig cymysgedd o dir ar gyfer datblygu, unedau 'Uwch' newydd sydd yn yr arfaeth neu'n cael eu hadeiladu, ac adeiladau yn bodoli eisoes sydd ar gael i'w rhentu neu i'w prynu.*

Lleolir safleoedd allweddol ym **Mhenrhyndeudraeth, Y Bala, Tywyn, Y Trallwng, Y Drenewydd, Llanidloes, Aberystwyth, Aberteifi, Llandrindod, Llanbedr Pont Steffan, Llanfair-ym-Muallt, Llanandras, Aberhonddu** ac **Ystradgynlais.**

*Yn ogystal â chaniatáu busnesau brodorol i dyfu ac ehangu, gall y safleoedd hyn gynnig cyfleoedd ar gyfer prosiectau buddsoddiad o'r tu allan hefyd, sy'n dod â buddsoddiad a chyfleoedd cyflogaeth ychwanegol i mewn i'r rhanbarth.*

## Ardaloedd Sector Busnes Allweddol

*Darperir cefnogaeth i nifer o sectorau busnesau allweddol sy'n bodoli eisoes, fel Gweithgynhyrchu Uwch, Busnes Amaeth a Bwyd Amaeth, wedi'u lleoli ledled y rhanbarth. Darperir cymorth hefyd i sectorau sy'n datblygu fel Coedwigaeth & Choed, Biotechnoleg (wedi'i ganoli yng Ngheredigion), Nwyddau Adnewyddadwy (wedi'i ganoli ar Ddyffryn Dyfi) a Chyfryngau Newydd.*

## Cefnogi Menter

*Mae Cefnogi Menter ar gael trwy gyfrwng rhwydwaith o ganolfannau lleol i fusnesau cyn cychwyn arni, cwmnïau sy'n cychwyn arni a busnesau bach sy'n bodoli eisoes ledled Canolbarth Cymru. Ymysg y math o gymorth a geir mae Cyngor a gwybodaeth ddiduedd am gynllunio busnes, marchnata a mynediad i gyllid a thechnoleg gwybodaeth.*

## Cefnogi Cymunedau

*Mae Adran Datblygu Rhanbarthol yr Is-adran yng Nghanolbarth Cymru yn darparu ystod eang o raglenni a mentrau Adfywio Cymunedau i gefnogi cyfleoedd lleol wrth fynd i'r afael â rhai o broblemau ac anghenion cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol y rhanbarth. Caiff cefnogaeth ei darparu trwy gyfrwng y Pecyn Offer Adfywio Cymunedau a Chyllid Strwythurol Ewropeaidd priodol.*

## Ardaloedd Twf mewn Twristiaeth

*Nod yr Awdurdod yw defnyddio ei fentrau adfywio presennol i gyfannu a gwella Ardaloedd Twf mewn Twristiaeth. Mae Bwrdd Croeso Cymru wedi dynodi pedair ardal sydd â'r potensial i wella'r statws sydd ganddynt ar hyn o bryd fel cyrchfannau twristiaeth allweddol a gyda'r nod o arddangos arfer gorau.*



## General Manufacturing / Business Sites

*Mid Wales has one strategic site (Aberporth Technology Park) and 15 key sites located throughout the region offering a mix of land for development, new 'Advance' units planned or under construction, and existing premises available for rent or purchase.*

Key sites are located at **Penrhyndeudraeth, Bala, Tywyn, Welshpool, Newtown, Llanidloes, Aberystwyth, Cardigan, Llandrindod Wells, Lampeter, Builth Wells, Presteigne, Brecon** and **Ystradgynlais.**

*In addition to allowing indigenous businesses to grow and expand, these sites can also provide opportunities for appropriate inward investment projects which bring additional investment and employment opportunities into the region.*

## Key Business Sector Areas

*Support is provided for a number of existing key business sectors such as Advanced Manufacturing, Agri-business and Agri-food, located throughout the region. Assistance is also made available to emerging sectors such as Forest & Timber, Biotechnology (centred on Ceredigion), Renewables (centred on the Dyfi Valley) and New Media.*

## Enterprise Support

*Enterprise Support is available through a network of local centres to pre-start, start-up and existing small businesses throughout Mid Wales. Types of assistance include impartial advice and information on business planning, marketing and access to finance and information technology.*

## Community Support

*The Regional Development Department of the Mid Wales Division provides a wide range of Community Regeneration programmes and initiatives to support local communities in addressing some of the social, economic, environmental and cultural problems and needs of the region. Support is provided through the Community Regeneration Tool-Kit and appropriate European Structural Funding.*

## Tourism Growth Areas

*The Agency aims to use its existing regeneration initiatives to complement and enhance Tourism Growth Areas. Wales Tourist Board has designated four areas with potential to enhance their existing status as key tourism destinations and with the aim of demonstrating best practice.*

*Wynebu'r Her yng*
# ne-orllewin cymru

*Mae De-orllewin Cymru yn gwasanaethu rhanbarth trefol a gwledig amrywiol sy'n cynnwys poblogaeth o 625,000; ychydig yn uwch nag un rhan o bump o holl boblogaeth Cymru. Mae'r rhanbarth yn cynnwys pedair sir, sef Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin, Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot.*

*Meeting the Challenge in*
# south west wales

*South West Wales serves a diverse urban and rural region containing a population of 625,000; just over one fifth of the Welsh total. The region comprises the four counties of Pembrokeshire, Carmarthenshire, Swansea and Neath Port Talbot.*





## Safleoedd Gweithgynhyrchu / Busnes Cyffredinol

*Mae'r De-orllewin yn cynnig ystod eang o safleoedd strategol ac adeiladau i leoli gweithgynhyrchu uwch a busnes cyffredinol. Ymysg y safleoedd strategol allweddol mae:*

**Parc Ynni Baglan, Castell-nedd Port Talbot**. Fe'i lleolir ar bwys cyffordd 41 traffordd yr M4, ac mae'r safle dwysedd isel hwn sydd wedi'i dirlunio yn cynnig yr uwch adeiladau diweddaraf, lleiniau â gwasanaeth yn barod i'w datblygu ar unwaith, a dulliau cynhyrchu pŵer trydanol ar safle sy'n golygu bod buddsoddwyr yn arbed hyd at 30% ar eu costau ynni arferol.

**Parc Busnes Pont Cleddau, Sir Benfro.** Wedi'i leoli ar ochr ddeheuol Pont Cleddau ac ychydig i'r gogledd o Ddoc Penfro, mae'r safle hwn yn cynnig menter ddeniadol i fusnesau a arweinir gan dechnoleg.

## Ardaloedd Sector Busnes Allweddol

*Mae Awdurdod Datblygu Cymru yn canolbwyntio ar ddatblygu clystyrau o sectorau busnes allweddol ar hyd a lled y rhanbarth er mwyn annog twf a datblygiad gwahanol sectorau busnes.*

Lleolir **gweithgynhyrchu uwch** yn bennaf yn ardaloedd mwy trefol De Cymru.

Mae gan **busnesau a arweinir gan wasanaethau** fel Canolfannau CRM, bresenoldeb amlwg yn Abertawe a'r cyffiniau.

Rhagwelir y bydd **busnesau a symbylir gan wybodaeth** yn cynyddu'n sylweddol yn y rhanbarthau o ganlyniad i'r rhwydwaith Technium estynedig, a fydd yn cynnig cyfleusterau deor Y&D ar hyd a lled y sectorau hyn - Cerbydau, Amlgyfrwng, Cyfryngau-Digidol, TGCh, Electroneg a Biotechnoleg.

## Ardaloedd Buddsoddiad Trefol Allweddol

*Mae Awdurdod Datblygu Cymru a'i bartneriaid wedi datblygu nifer o brosiectau allweddol ym maes buddsoddiad trefol er mwyn gweddnewid safleoedd diwydiannol mewn lleoliadau trefol detholus ar hyd a lled De-orllewin Cymru.*

Mae'r **'Arc Cyfle' ym Mae Abertawe** yn cynnwys tir diwydiannol diangen sy'n ymestyn o Bort Talbot i Abertawe er mwyn creu parth trefol deinamig. Ymysg y prosiectau allweddol mae datblygu **Parc Ynni Baglan** yn safle BP Chemical, adfer yr hen **burfa olew yn Llandarsi** i sefydlu pentref trefol, gweddnewid a throi'r hen ddociau ar bwys Dinas Abertawe yn **SA1 Glannau Abertawe** a rhoi ar waith ddatblygiad manwerthu **'Castle Quays' yng Nghanol y Ddinas,** fel rhan o'r strategaeth i weddnewid dinas Abertawe.

I gyfannu **Parc Arfordirol y Mileniwm yn Llanelli** - cynllun adfywio mwyaf Cymru - cafodd clwstwr o safleoedd ei enwi ar gyfer datblygu cyfleoedd newydd i fuddsoddi mewn hamdden, twristiaeth a masnach.

## Ardaloedd Gwledig Allweddol

*Ymysg nifer o brosiectau i hybu adfywiad gwledig ar hyd a lled y rhanbarth, mae Awdurdod Datblygu Cymru ar y cyd â Chyngor Sir Penfro a Planed/SPARC yn chwarae rhan weithredol mewn adfywio cymunedau yng Ngogledd Sir Benfro.*

## Cefnogi Cymunedau

*O dan Fenter Treftadaeth Trefwedd, mae Awdurdod Datblygu Cymru, ar y cyd â nifer o bartneriaid eraill, yn cymryd rhan mewn cynllun gwella tref yn Ninbych-y-pysgod ac adnewyddu adeiladau hanesyddol yn Iard Longau Penfro a'r ardal o amgylch.*

*Mudiad Menter y Trefi a'r Pentrefi Bach (MMTPB) sy'n gyfrifol am adfywio'r amgylchedd mewn trefi a phentrefi bach ar hyd a lled y rhanbarth.*

## Ardaloedd Twf mewn Twristiaeth

*Mae twristiaeth yn chwarae rhan hanfodol bwysig yn economi De-orllewin Cymru, yn enwedig yn Sir Benfro.*



## General Manufacturing / Business Sites

*South West offers a wide range of strategic sites and premises to accommodate advanced manufacturing and general business use. Key strategic sites include:*

**Baglan Energy Park, Neath Port Talbot.** Located immediately adjacent to junction 41 of the M4 motorway this low density landcaped site offers state-of-the-art advance premises, serviced plots ready for immediate development and on-site electrical power generation saving investors up to 30% of their usual energy costs.

**Cleddau Bridge Business Park, Pembrokeshire.** Situated on the southern side of Cleddau Bridge and just north of Pembroke Dock this site offers an attractive proposition for technology-led businesses.

## Key Business Sector Areas

*The WDA is concentrating on developing key business sector clusters throughout the region to encourage the development and growth of a range of business sectors.*

**Advanced manufacturing** is located predominantly in the more urban areas of South West Wales.

**Service-led businesses** such as CRM Centres have a strong presence in and around Swansea.

**Knowledge-driven businesses** are predicted to increase significantly in the regions as a result of the extended Technium network, which is to offer R&D incubator facilities across Automotive, Multi-Media, Digital-Media, ICT, Electronics and Biotechnology sectors.

## Key Urban Investment Areas

*The WDA and its partners have developed a number of key urban investment projects to transform redundant industrial sites at selective urban locations across South West Wales.*

The **Swansea Bay 'Arc of Opportunity'** encompasses redundant industrial land stretching from Port Talbot to Swansea to create a dynamic urban zone. Key projects include developing **Baglan Energy Park** at the BP Chemical site, reclamation of the former **Llandarcy oil refinery** to establish an urban village, transforming the former dockland adjacent to Swansea City Centre into the **SA1 Swansea Waterfront** and implementing the **Castle Quays City Centre** retail development as part of the strategy to transform the city of Swansea.

To complement the **Millennium Coastal Park at Llanelli** - Wales' largest regeneration scheme - a cluster of sites have been identified for developing new leisure, tourism and commercial investment opportunities.

## Key Rural Areas

*Amongst several projects to promote rural regeneration across the region, the WDA in conjunction with Pembrokeshire County Council and Planed/SPARC is actively involved in regenerating communities in North Pembrokeshire.*

## Community Support

*Under the Townscape Heritage Initiative the WDA, in conjunction with a number of partners are involved in a town improvement scheme in Tenby and the refurbishment of historic buildings in Pembroke Dockyard and the surrounding area.*

*The Small Towns & Villages Enterprise Initiative (STVEI) is responsible for regenerating the environment in small towns and villages throughout the region.*

## Tourism Growth Area

*Tourism plays a vital role in the economy of South West Wales, particularly in Pembrokeshire.*

*Wynebu'r Her yng*


# ne-ddwyrain cymru

*Mae Cyfadran De-ddwyrain Cymru yn gofalu am ardal sy'n ymestyn dros bron 300,000 hectar sydd â phoblogaeth o oddeutu 1.4 miliwn - sef bron 50% o holl boblogaeth Cymru.*

*Meeting the Challenge in*

# south east wales

*The South East Wales Division covers an area of nearly 300,000 ha with a population of approximately 1.4 million people - representing nearly 50% of the population of Wales.*



## Safleoedd Gweithgynhyrchu / Busnes Cyffredinol

*Mae gan De-ddwyrain Cymru ddewis eang o safleoedd ac adeiladau i fodloni gofynion busnes ac mae'n datblygu darpariaeth mewn un neu ddau o safleoedd buddsoddiad strategol allweddol:*

**Parc Busnes Oakdale.** Mae'r datblygiad graddfa fawr newydd hwn yn darparu safleoedd safle datblygu o ansawdd uchel yn y rhanbarth, a hynny mewn ardal sy'n gymwys i dderbyn y cymorth uchaf posibl.

**Lleolir Parc Busnes Celtic Springs** wrth bwys yr M4 ger Casnewydd a hwn yw cam cyntaf datblygu parc e-fasnach.

**Cafodd Parc Nantgarw** ei glustnodi ar gyfer mannau busnes uwch dechnoleg a chyfleusterau ymchwil a datblygiad.

## Ardaloedd Sector Busnes Allweddol

*Mae rhanbarth y De-ddwyrain yn arbennig o amrywiol. Yn eu plith mae:*

Mae'r maes **Cerbydau** yn cyflogi nifer sylweddol o bobl, gyda chwmnïau cerbydau megis Ford ym Mhen-y-bont ar Ogwr a llawer o gwmnïau cyflenwi ar hyd a lled y rhanbarth. Nod Rhaglen Accelerate Wales yw cynorthwyo i wella effeithlonrwydd trwy gyfrwng y cadwyni cyflenwad.

Bernir bod **Aerofod** yn sector sydd â gobeithion da o ran twf, fydd yn ychwanegu at gryfderau presennol y rhanbarth.

Mae **gwasanaethau Cwsmeriaid ac Ariannol** wedi'u canoli'n bennaf yng Nghasnewydd a Chaerdydd ac maent yn farchnad darged ar gyfer y rhanbarth.

**Gweithgynhyrchu electroneg,** yn cynnwys lled-ddargludyddion, yw'r sector blaenllaw yn y rhanbarth, ond mae newid sylweddol yn digwydd ynddo ar hyn o bryd.

Mae **prosesu bwyd** yn sector twf arall, gyda'r gyfle i roi gwerth ychwanegol ar gynnyrch Cymru.

Lleolir cwmnïau **TGCh** o amgylch coridor yr M4 yn bennaf.

Mae'r **cyfryngau** yn sector sy'n tyfu gyda chwmnïau newydd, arloesol. Mae'r prosiect @Cymru Cyfryngau Digidol yn cynorthwyo cwmnïau newydd i sefydlu a thyfu.

## Ardaloedd Buddsoddiad Trefol Allweddol

*Rhoddir blaenoriaeth uchel i adfywio trefi a safleoedd allweddol yn Ne-ddwyrain Cymru er mwyn darparu cyfleoedd newydd i ddatblygu.*

